Yr ydym wedi ymgynnll yng ngŵydd Duw i dystio i briodas y mab hwn a'r ferch hon ac i weddio drostynt. Rhodd Duw i ddynolryw yw priodas, ac mae'r Ysgrythur Lân yn ei chyffelybu i'r undeb sydd rhwng Crist a'i Eglwys. Y mae felly i'w hanrhodeddu gan bob dyn. Ni ddylai neb briodi'n anstyriol neu'n ddifeddwl, ond gyda phwyll a pharch. Mae Duw yn galw meibion a merched i'r ystad gysegredig hon er mwyn sancteiddio eu cariad mewn undeb â'i gilydd tra byddant byw; fel y gallant fagu eu plant i'w garu ef, a'u meithrin trwy ei ras; ac fel y gallant anrhodeddu a chynorthwyo'r naill y llall a bod yn gefn i'w gilydd mewn hawddfyd ac mewn adfyd.

Os gŵyr neb ohonoch am unrhyw rwystr cyfawn i'r briodas hon, datganed hynny yn awr.

neu:

Garedigion, yr ydym wedi ymgynnll yng ngolwg Duw, ac o flaen y gynulleidfa hon, i gysylltu'r ddeuddyn hyn ynghyd mewn Glân Briodas, sy'n ystad anrhodeddus, wedi ei hordeinio gan Dduw ei hun, ac yn arwyddo inni'r undeb dirgel sy rhwng Crist a'i Eglwys. Y lân ystad hon a addurnodd Crist â'i bresenoldeb yng Nghana Galilea, a'i phrydferthu yno â'i wyrth gyntaf, a dywed yr Ysgrythur Lân ei bod i'w chadw'n anrhodeddus gerbron pob dyn. Am hynny ni ddylai neb ei chymryd arno'n fyrbwyll, yn ysgafn, neu'n rhyfygus, eithr yn wylaidd, yn bwyllog, yn ystyriol, yn sobr, ac yn ofn Duw, gan iawn ystyried amcanion ordeinio Priodas.

THE INTRODUCTION

Stand

The persons to be married stand before the Minister the man on the right of the woman.

*The Priest says to the congregation,
either:*

We have come together in the presence of God to witness the marriage of this man and this woman, and to pray for them. Marriage is a gift of God to mankind. Holy Scripture compares it to the union of Christ with his Church. It should therefore be held in honour by all mankind. It must not be entered upon lightly or thoughtlessly, but responsibly and reverently. God calls men and women to the married state so that their love may be made holy in life-long union; that they may bring up their children to grow in grace and learn to love him; and that they may honour, help and comfort one another both in prosperity and adversity.

If any of you is aware of any just impediment to this marriage, you are to declare it now.

or:

Dearly beloved, we are gathered together in the sight of God, and in the face of this congregation, to join together this man and this woman in Holy Matrimony: which is an honourable estate, instituted by God himself and signifying to us the mystical union between Christ and his Church. This holy estate Christ adorned and beautified with his presence and first miracle which he wrought, in Cana of Galilee; and it is commended by Holy Scripture to be honourable among all men. Therefore it is not by any to be entered upon unadvisedly, lightly or wantonly, but reverently, discreetly, advisedly, soberly, and in the fear of God; duly considering the causes for which Matrimony was ordained.

Ordeiniwyd Priodas er mwyn sancteiddio'r uniad rhwng mab a merch; er mwyn ennill plant i'w meithrin yn ofn ac addysg yr Arglwydd; ac er mwyn y gyd-gymdeithas, a'r cymorth a'r diddanwch y dylai'r naill eu cael gan y llall mewn hawddfyd ac mewn adfyd.

I'r lân ystad hon y mae'r ddeuddyn hyn wedi dyfod yn awr i ymgysylltu. Am hynny, os gŵyr neb am unrhyw achos cyflawn, fel na ellir yn gyfreithlon eu cysylltu hwy ynghyd, dyweded hynny yn awr, neu tawed byth o hyn allan.

Os gŵyr neb ohonoch am unrhyw rwystr cyflawn i'r briodas hon, datganed hynny yn awr.

Yna dywed yr Offeiriad wrth y rhai sydd i'w priodi:
Rhaid imi ofyn a gorchymyn i chwi eich dau yng ngŵydd Duw, os gŵyr yr un ohonoch am unrhyw rwystr fel na ddylech yn ôl cyfraith yr Eglwys neu'r wlad hon gael eich cysylltu ynghyd mewn priodas, ar ichwi ddweud hynny yn awr.

Os honnir unrhyw rwystr, gweler y nodiadau ar dudalen 81 yn y Nodiadau a'r Atodiadau.

Matrimony was ordained for the hallowing of the union between man and woman; for the procreation of children, to be brought up in the fear and nurture of the Lord; and for the mutual society, help and comfort, that the one ought to have of the other, both in prosperity and in adversity.

Into this holy estate these persons present come now to be joined. Therefore if any man can show any just cause why they may not lawfully be joined together, let him now speak, or else hereafter for ever hold his peace.

If any of you is aware of any just impediment to this marriage, you are to declare it now.

The Priest, addressing the persons to be married, continues:

I require and charge you both, in the presence of God, that, if either of you knows any reason why, according to the law of the Church or of this land, you may not be joined together in marriage, you now make it known.

If there are any allegations of impediment made, see notes on page 81 in the Notes and Appendices.

GWEINIDOGAETH Y GAIR

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;
A chyda'th ysbryd dithau.

*Dywed yr Offeiriad un or Colectau hyn,
naill ai:*

Hollalluog Dduw, i ti y mae pob calon yn agored, pob
dymuniad yn hysbys, a phob dirgel yn amlwg: Glanha
feddyliau'n calonnau trwy ysbrydoliaeth dy Lân Ysbryd,
fel y carom di yn berffaith a mawrhau'n deilwng dy Enw
sanctaidd; trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu:

Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw, cyfarwydda,
sancteiddia a llywodraetha ein calonnau a'n cyrff yn
ffyrdd dy ddeddfau ac yng ngweithredoedd dy
orchmynion fel, trwy dy nodded gadarnaf yma a thros
byth, y byddwn yn gadwedig gorff ac enaid; trwy ein
Harglwydd a'n Gwareddwr Iesu Grist. **Amen.**

Eistedd

*Dywed y darlenydd,
Y darleniad o:*

naill ai:

1 Corinthiaid 13. 1-7

Os llefaraf â thafodau dynion ac angylion, a heb fod
gennyf gariad, efydd swnllyd ydwyt, neu symbol aflare.
Ac os oes gennyf ddawn proffwydo, ac os wyf yn
gwybod y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth, ac os oes
gennyf gymaint o ffydd nes gallu symud mynyddoedd, a
heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim. Ac os rhof fy holl
feddiannau i borthi eraill, ac os rhof fy nghorff yn
aberth, a hyunny er mwyn ymffrostio, a heb fod gennyf
gariad, ni wna hyn ddim lles imi.

THE MINISTRY OF THE WORD

The Lord be with you;
And with your spirit.

*The Priest says one of the following Collects,
either:*

Almighty God, to you all hearts are open and all desires known: purify our thoughts through your Holy Spirit, that we may love you with heart and mind and praise you as we ought: through Jesus Christ our Lord.

Amen.

or:

Almighty Lord and everlasting God, direct, sanctify and govern our hearts and bodies in the ways of your laws and in the works of your commandments; that, through your most mighty protection, both here and ever, we may be preserved in body and soul; through our Lord and Saviour, Jesus Christ. **Amen.**

Sit

The reader says,

The reading from:

either:

1 Corinthians 13. 1-7

I may speak in tongues of men or of angels, but if I am without love, I am a sounding gong or a clanging cymbal. I may have the gift of prophecy, and know every hidden truth; I may have faith strong enough to move mountains; but if I have no love, I am nothing. I may dole out all I possess, or even give my body to be burnt, but if I have no love, I am none the better.

Y mae cariad yn hirymarhous; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw'n cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwyltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirioneedd. Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.

neu:

Colosaiad 3. 12-17

Am hynny, fel etholedigion Duw, sanctaidd ac annwyl, gwisgwch amdanoch dynerwch calon, tiriondeb, gostyngeiddrwydd, addfwynder ac amynedd. Goddefwch eich gilydd a maddeuwch i'ch gilydd os bydd gan rywun gwyn yn erbyn rhywun arall; fel y maddeuodd yr Arglwydd i chwi, felly gnewch chwithau. Tros y rhain i gyd gwisgwch gariad, sy'n rhwymyn perffeithrwydd. Bydded i dangnafedd Crist lywodraethu yn eich calonnau; i hyn y cawsoch eich galw, yn un corff. A byddwch yn diolchgar. Bydded i air Crist breswyllo ynoch yn ei gyfoeth. Dysgwch a rhybuddiwch eich gilydd gyda phob doethineb. Â chalonnau diolchgar canwch i Dduw salmau ac emynau a chaniadau ysbyrydol. Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.

naill ai:

Salm 37. 3-5

**Gobeithia yn yr Arglwydd a / gwna / dda: felly y
trigi yn y tir a / thi a / borthir · yn / diau.
‡ Ymddigrafa hefyd / yn yr / Arglwydd: ac efe a
ddyry i ti ddymun/iadau · dy / galon.
Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd ac ym/ddiried /
ynddo: ac e/fe a'i / dwg i / ben.**

Love is patient; love is kind and envies no one. Love is never boastful, nor conceited, nor rude; never selfish, not quick to take offence. Love keeps no score of wrongs; does not gloat over other men's sins, but delights in the truth. There is nothing love cannot face; there is no limit to its faith, its hope, and its endurance.

or:

Colossians 3. 12-17

Put on then, as God's chosen ones, holy and beloved, compassion, kindness, lowliness, meekness, and patience, forbearing one another and, if one has a complaint against another, forgiving each other; as the Lord has forgiven you, so you also must forgive. And above all these put on love, which binds everything together in perfect harmony. And let the peace of Christ rule in your hearts, to which indeed you were called in the one body. And be thankful. Let the word of Christ dwell in you richly, as you teach and admonish one another in all wisdom, and as you sing psalms and hymns and spiritual songs with thankfulness in your hearts to God. And whatever you do, in word or deed, do everything in the name of the Lord Jesus, giving thanks to God the Father through him.

either:

Psalm 37. 3-5

**Put thou thy trust in the Lord and be / doing /
good: dwell in the land, and / veri · ly / thou
shalt be / fed.
‡Delight thou / in the / Lord: and he shall / give thee
thy / heart's de-/sire.
Commit thy way unto the Lord and put thy / trust
in / him: and / he shall / bring it · to / pass.**

‡ Duw a drugarhao wrthym ac / a'n ben/dithio:
a thy/wynned · ei / wyneb / arnom.
Fel yr adwaener dy / ffordd · ar y / ddaear: a'th
iachawdwriaeth y/mhlith yr / holl gen/hedloedd.
Molianned y bobl / di O / Dduw: molianned yr / holl
/ bobl · dy/di.
Llawenhaed y cenhedloedd a / byddant / hyfryd:
canys ti a ferni y bobl yn uniawn * ac a
lywodraethi y cen/hedloedd ar y ddaear.
Molianned y bobl / di O / Dduw: molianned yr /
holl / bobl ·dy/di.
Yna y ddaear a / rydd ei / ffrwyth: a Duw sef ein /
Duw ni / a'n ben/dithia.
Duw / a'n ben/dithia: a holl derfynau y / ddaear ·
a'i / hofnant / ef.

Dyrchafaf fy llygaid / i'r my/nyddoedd: o'r / lle y /
daw fy nghymorth.
Fy nghymorth a ddaw oddi / wrth yr / Arglwydd:
yr hwn a wnaeth / nefoedd · a / daear.
Ni ad efe i'th / droed / lithro: ac / ni / huna · dy /
geidwad.
Wele / ni / huna: ac ni / chwsg / ceidwad / Israel.
Yr Arglwydd / yw dy / geidwad: yr Arglwydd yw
dy / gysgod ar dy · dde/heulaw.
Ni'th dery yr / haul y / dydd: na'r / lleuad / y / nos.
‡ Yr Arglwydd a'th geidw / rhag pob / drwg: e/fe a /
geidw · dy enaid.
Yr Arglwydd a geidw dy fynediad / a'th ddy/fodiad:
o'r / pryd hwn / hyd yn · dra/gwydd.

or:

Psalm 67

**‡ God be merciful unto / us and / bless us: and shew
us the / light / of his / countenance,
That thy way may be / known up · on / earth: thy
saving / health a-/mong all / nations.
Let the peoples / praise · thee O / God: yea let / all
the / peoples / praise thee.
O let the nations re-/joice . and be / glad: for thou
judgest the peoples righteously, * and / guidest .
the / nations · on / earth.
Let the peoples / praise · thee O / God: yea let / all
the / peoples / praise thee.
The earth hath brought / forth her / increase: and
God, even our own / God, shall / give us · his /
blessing.
The blessing of / God · be up-/on us: and let all the
/ ends · of the / world / fear him.**

or :

Psalm 121

**I will lift up mine eyes / unto · the / hills: from /
whence / cometh · my / help?
My help cometh / from the / Lord; who hath /
made / heaven · and / earth.
He will not suffer thy / foot . to be / moved: and he
that / keepeth · thee / will not / sleep.
Behold he that / keepeth / Israel: shall / neither /
slumber nor / sleep.
The Lord him-/self · is thy / keeper: the Lord upon
thy right / hand shall / give thee / shade;
The sun shall not / strike · thee by / day: neither /
shall the / moon by / night.
‡ The Lord shall preserve thee from / all / evil: yea it
is / he · that shall / keep thee / safe.
The Lord shall preserve thy going out and thy /
coming / in: from this time / forth for / ever-/ more.**

Sefyll

Dywed y darlennyydd:

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl Sant:
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

naill ai:

Mathew 19. 4-6

Atebodd Iesu gan ofyn, "Onid ydych wedi darllen mai yn wryw a benyw y gwnaeth y Creawdwr hwy o'r dechreua?" A dywedodd, "O achos hyn bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam ac ymlynu wrth ei wraig, a bydd y ddau yn un cnawd. Gan hynny nid dau mohonynt mwyach, ond un cnawd. Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, ni ddylai dyn ei wahanu."

neu:

Ioan 15. 9-12

Dywedodd Iesu, "Fel y mae'r Tad wedi fy ngharu i, yr wyf finnau wedi eich caru chwi. Arhoswch yn fy nghariad i. Os cadwch fy ngorchmynton fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynton fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i'm llawenydd i fod ynoch, ac i'ch llawenydd chwi fod yn gyflawn. Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi."

Ar ôl yr Efengyl:

Moliant i ti, O Grist.

Stand

The reader says:

Hear the Holy Gospel according to Saint:
Glory be to thee, O Lord.

either:

Matthew 19. 4-6

Jesus said, ‘Have you never read that the Creator made them from the beginning male and female?’; and he added, ‘For this reason a man shall leave his father and mother, and be made one with his wife; and the two shall become one flesh. It follows that they are no longer two individuals: they are one flesh. What God has joined together, man must not separate.’

or:

John 15. 9-12

Jesus said, ‘As the Father has loved me, so I have loved you. Dwell in my love. If you heed my commands, you will dwell in my love, as I have heeded my Father’s commands and dwell in his love. I have spoken thus to you, so that my joy may be in you, and your joy complete. This is my commandment: love one another, as I have loved you.’

After the Gospel:

Praise be to thee, O Christ.

Y BRIODAS

Rhaid defnyddio'r ffurf hon i'r Briodas yn llawn yn achos pob deuddyd pan weinyddir dwy neu ragor o briodasau yr un pryd.

A'r ddeuddyd sydd i'w priodi yn sefyll o'i flaen, dywed yr Offeiriad wrth y mab:

E., a gymeri di E. yn wraig i ti? A wnei di fyw gyda hi yn uffud i ewyllys a bwriad Duw? A wnei di ei charu, ei pharchu a'i chynnal, yn glaf ac yn iach, a pharhau'n ffyddlon iddi, gan wrthod pawb arall, tra byddwch eich dau byw?

*Ateb y mab:
Gwnaf.*

Yna dywed yr Offeiriad wrth y ferch:

E., a gymeri di E. yn âr i ti? A wnei di fyw gydag ef yn uffud i ewyllys a bwriad Duw? A wnei di ei garu, ei barchu a'i gynnal, yn glaf ac yn iach, a pharhau'n ffyddlon iddo, gan wrthod pawb arall, tra byddwch eich dau byw?

*Ateb y ferch:
Gwnaf.*

*Fe bair yr Offeiriad i'r mab gymryd llaw dde'r ferch yn ei law dde,
a dweud ar ei ôl:*

*Yr wyf i E. yn dy gymryd di E. yn wraig i mi,
I'th gadw a'th gynnal,
O'r dydd hwn ymlaen,
Er gwell, er gwaeth,
Er cyfoethocach, er tlotach,
Yn glaf ac yn iach,
I'th garu a'th ymgeleddu,
Tra byddwn ni'n dau byw,
Yn ôl ewyllys a bwriad Duw.
Dyma f'adduned i ti.*

THE MARRIAGE

This form for the Marriage is to be taken in full in each case if two or more marriages are solemnized at the same time.

The persons to be married standing before him, the Priest says to the man:

N., will you have N. to be your wife? Will you live with her in obedience to God's will and purpose? Will you love her, honour her and care for her, in sickness and in health? Will you be faithful to her, and her alone, as long as you both live?

The man answers:

I will.

Then the Priest says to the woman:

N., will you have N. to be your husband? Will you live with him in obedience to God's will and purpose? Will you love him, honour him and care for him, in sickness and in health? Will you be faithful to him, and him alone, as long as you both live?

The woman answers:

I will.

The Priest directs the man to take the woman's right hand in his right hand, and to say after him:

I, N., take you N., to be my wife,
To have and to hold,
From this day forward,
For better for worse,
For richer for poorer,
In sickness and in health,
To love and to cherish,
As long as we both shall live,
According to the will and purpose of God.
And to this I give you my pledge.

*Gollyngant eu dwylo ac fe gymer y ferch law dde'r mab yn ei llaw
dde, a dweud ar ôl yr Offeiriad:*

Yr wyf i E. yn dy gymryd di E. yn âr i mi,
I'th gadw a'th gynnal,
O'r dydd hwn ymlaen,
Er gwell, er gwaeth,
Er cyfoethocach, er tlotach,
Yn glaf ac yn iach,
I'th garu a'th ymgeleddu,
Tra byddwn ni'n dau byw,
Yn ôl ewyllys a bwriad Duw.
Dyma fadduned i ti.

*Gollyngant eu dwylo drachefn, a gosodir y Fodrwy (neu'r
Modrwyau, os bydd y mab a'r ferch yn dymuno cyfnewid
Modrwyau) ar lyfr yr Offeiriad. Yna gall yr Offeiriad ddweud:
Bendithia, Arglwydd, y Fodrwy hon (Modrwyau hyn) a
roddir ac a dderbynir yn arwydd o gariad a
ffyddlondeb. Amen.*

*Cymer y mab y Fodrwy a'i dodi ar bedwerydd bys llaw aswy'r
ferch, a chan ddal y Fodrwy yno fe ddywed ar ôl yr Offeiriad:
Derbyn y Fodrwy hon yn arwydd o'm cariad a'm ffyddlondeb.
Anrhydeddaf di â'm corff,
A rhannaf fy holl eiddo â thi.*

*Wedi derbyn y Fodrwy, fe ddywed y ferch ar ôl yr Offeiriad:
Yr wyf yn derbyn y Fodrwy hon yn arwydd o gariad a
ffyddlondeb rhyngom ni'n dau.*

*Os bydd y ddeuddyn yn dymuno cyfnewid Modrwyau, yna fe
gymer y ferch y Fodrwy arall a'i dodi ar bedwerydd bys llaw
aswy'r mab, a chan ddal y Fodrwy yno, fe ddywed ar ôl yr
Offeiriad:*

Derbyn y Fodrwy hon yn arwydd o'm cariad a'm ffyddlondeb.
Anrhydeddaf di â'm corff,
A rhannaf fy holl eiddo â thi.

*Wedi derbyn y Fodrwy, fe ddywed y mab ar ôl yr Offeiriad:
Yr wyf yn derbyn y Fodrwy hon yn arwydd o gariad a
ffyddlondeb rhyngom ni'n dau.*

Then they loose hands, and the woman takes the man's right hand in her right hand, and says after the Priest:

I, N., take you N., to be my husband,
To have and to hold,
From this day forward,
For better for worse,
For richer for poorer,
In sickness and in health,
To love and to cherish,
As long as we both shall live,
According to the will and purpose of God.
And to this I give you my pledge.

Then they again loose hands, and the Ring (or Rings, if the man and the woman wish to exchange Rings) being placed on the Priest's book, the Priest may say:

Bless, O Lord, this Ring (*these Rings*), given and received as a sign of love and faithfulness. **Amen.**

The man, taking the Ring, puts it on the fourth finger of the woman's left hand, and, holding it there, says after the Priest:

Receive this Ring in token of my love and faithfulness.
I honour you with my body,
And all my possessions I share with you.

The woman, having received the Ring, says after the Priest:

I receive this Ring as a sign of the love and faithfulness between us.

If the couple wish to exchange Rings, the woman, taking the other Ring, puts it on the fourth finger of the man's left hand, and, holding it there, says after the Priest:

Receive this Ring in token of my love and faithfulness.
I honour you with my body,
And all my possessions I share with you.

The man having received the Ring, says after the Priest:

I receive this Ring as a sign of the love and faithfulness between us.

Penlinia'r mab a'r ferch, a dywed yr Offeiriad wrth y bobl:

Gan fod E. ac E. wedi cydysynio mewn priodas ac addunedu i'w gilydd gerbron Duw a'r gynulleidfa hon, a dangos hynny trwy gysylltu dwylo a thrwy roi a derbyn Modrwy (*Modrwyau*), yr wyf yn datgan eu bod hwy'n awr yn âr a gwraig ynghyd. Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Y rhai a gysylltodd Duw, na wahaned dyn.

Yna bendithia'r Offeiriad y ddeuddyd:

Duw Dad, Duw Fab, Duw Ysbryd Glân, a'ch bendithio, eich diogelu a'ch cadw; edryched yr Arglwydd yn drugarog arnoch, a'ch cyflenwi â phob bendith ysbrydol a gras, ichwi fyw felly ynghyd yn y byd hwn, fel yn y byd a ddaw y cewch fywyd tragwyddol. **Amen.**

The man and the woman kneel, and the Priest says to the people:

As N. and N. have consented together in marriage, and have made their pledge to one another before God and this congregation, and have declared it by joining of hands, and by giving and receiving of a Ring (Rings), I declare that they are now husband and wife. In the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen.**

Those whom God has joined together, let no man put asunder.

Then the Priest blesses the couple:

God the Father, God the Son, God the Holy Spirit, bless, preserve, and keep you; the Lord mercifully with his favour look upon you; and so fill you with all spiritual benediction and grace, that you may so live together in this life, that in the world to come you may have life everlasting. **Amen.**

YR YMBILIAD

Penlinio

Os gweinyddwyd y Briodas wrth ris y gangell, gall yr Offeiriad yn awr dywys y ddeuddynt at yr allor.

Hollalluog a thragwyddol Dduw, nertha dy weision hyn E. ac E. â’th ras, fel y cadwant yr addewidion a wnaethant yn dy ŵydd:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Arhosed dy dangnefedd a’th fendith yn eu cartref:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Bendithia eu priodas â phlant, a chynorthwya hwynt i fod yn rhieni cyfrifol; rho iddynt ddoethineb, cariad ac amynedd i fagu ac i feithrin eu plant yn y ffydd Gristionogol:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Nertha hwynt i gynnal beichiau ei gilydd a rhannu llawenydd ei gilydd, ac felly gyflawni cyfraith Crist:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Amlyga dy gariad trwyddynt hwy a'u cartref, fel y gogoneddir dy Enw sanctaidd:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

THE INTERCESSION

Kneel

If the Marriage has taken place at the chancel step, the Priest may now lead the newly-married couple towards the altar.

Almighty and everlasting God, strengthen these your servants *N.* and *N.* with your grace, that they may keep the promises they have made in your presence:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Let your peace be in their home, and your blessing upon it:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Bless their marriage with the gift of children. Help them to be responsible parents, and give them wisdom, love and patience to bring up their children in the Christian faith:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Enable them to bear one another's burdens and share one another's joys, that they may fulfil the law of Christ:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Make your love known through them and their home, that your holy Name may be glorified:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Os na weinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn diweddu fel hyn:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Dywed yr Offeiriad:

I Dduw'r Tad a'n carodd yn gyntaf
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd;
I Dduw'r Mab a'n carodd
a'n golchi oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun;
I Dduw'r Ysbryd Glân
sy'n tywallt cariad Duw yn ein calonnau;
y bo'r holl gariad a'r holl ogoniant dros amser a thros byth.
Amen.

If the Holy Eucharist is not to be celebrated, the service ends as follows:

**Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power, and the glory,
for ever and ever. Amen.**

The Priest says:

To God the Father, who first loved us,
and made us accepted in the Beloved;
To God the Son, who loved us,
and washed us from our sins in his own Blood;
To God the Holy Spirit,
who sheds the love of God abroad in our hearts,
Be all love and all glory, for time and for eternity.
Amen.

Y CYMUN BENDIGAID

Sefyll

*Pan weinyddir y Cymun Bendigaid fe â'r ddeuddyn, os bydd
angen, i'r lle y maent i gymuno.*

Dywed yr Offeiriad:

Tangnafedd yr Arglwydd a fo bob amser gyda chwi;
A chyda'th ysbyryd dithau.

Yna fe ddechrau'r Offeiriad yr Offrymiad, gan ddweud:

Bendithiaf yr Arglwydd bob amser:
ei foliant a fydd yn fy ngenau'n wastad.
Profwch a gwelwch mor dda yw'r Arglwydd:
gwyn eu byd y rhai sy'n ymddiried ynddo ef.

O flaen Toriad y Bara dywed yr Offeiriad y weddi hon:

O Dad, gwnaethost yr uniad rhwng gŵr a gwraig yn
ddirgeledd sanctaidd, sy'n adlewyrchu'r undeb rhwng
Crist a'i Eglwys. Edrych yn drugarog ar dy weision hyn,
a phâr iddynt fod yn ffyddlon i'w gilydd ac aros byth yn
dy gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Os bydd pregeth, traddoder hi ar ôl darllen yr Efengyl neu ar ôl yr
Ymbiliad.*

*Mae'r trydydd erfyniad yn yr Ymbiliad i'w ddefnyddio yn ôl dewis
yr Offeiriad.*

THE HOLY EUCHARIST

Stand

When the Holy Eucharist is to be celebrated, the newly-married couple move, if need be, to the place where they are to receive Holy Communion.

The Priest says:

The peace of the Lord be always with you;
And with your spirit.

Then the Priest begins the Offertory, saying:

I will bless the Lord at all times:
his praise shall always be on my lips.
Taste and see that the Lord is good:
happy are those who put their trust in him.

Before the Breaking of the Bread, this prayer is said by the Priest:

Father, you have consecrated the union of man and wife
to be a holy mystery in which is reflected the marriage
of Christ and his Church. Look with favour on these
your servants, and grant that they may be faithful to one
another and ever abide in your love; for Jesus Christ's
sake. **Amen.**

If a sermon is to be preached, it shall follow either the reading of the Gospel or the Intercession.

The third petition of the Intercession should be used at the discretion of the Priest.

**BENDITHIO
PRIODAS SIFIL**

**THE BLESSING OF A
CIVIL MARRIAGE**

72

Pan fo dau berson wedi eu huno mewn priodas sifil ac yn dymuno cael bendith yr Eglwys ar eu huniad, bydd yr Offeiriad yn gofyn iddynt ddangos tystysgrif y briodas. Os bydd wedi ei fodloni nad yw eu huniad yn groes i gyfraith yr Eglwys yng Nghymru, fe â rhagddo yn ôl y Drefn a ganlyn.

Sefyll

A'r mab a'r ferch yn sefyll o'i flaen, fe ddywed yr Offeiriad wrth y gynulleidfa:

Yr ydym wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw am fod E. ac E., sydd eisoes yn briod â'i gilydd, yn dymuno gofyn i Dduw fendithio eu priodas. Rhodd Duw i ddynolryw yw priodas. Y mae'r Ysgrythur Lân yn ei chyffelybu i'r undeb sydd rhwng Crist a'i Eglwys. Y mae felly i'w hanrhydeddu gan bawb. Ni ddylai neb briodi'n anystyriol neu'n ddifeddwol, ond gyda phwyll a pharch. Y mae Duw yn galw meibion a merched i'r ystad briodasol er mwyn sancteiddio eu cariad mewn undeb â'i gilydd tra byddant byw; fel y gallant fagu eu plant i'w garu ef, a'u meithrin trwy ei ras; ac fel y gallant anrhydeddu a chynorthwyo'r naill y llall a bod yn gefn i'w gilydd mewn hawddfyd ac mewn adfyd.

Gellir defnyddio Gweinidogaeth y Gair fel y gosodir hi yn Nhreftn Glân Briodas.

When two persons have contracted a civil marriage and wish to receive the blessing of the Church upon their union, the Priest shall ask them to produce the certificate of the marriage. If he is satisfied that their union is not contrary to the laws of the Church in Wales, he shall proceed in the Form following.

Stand

The man and the woman standing before him, the Priest says to the congregation:

We have come together in the presence of God because N. and N., who are already married to each other, wish to ask God's blessing on their marriage. Marriage is a gift of God to mankind. Holy Scripture compares it to the union of Christ with his Church. It should therefore be held in honour by all mankind. It must not be entered upon lightly or thoughtlessly, but responsibly and reverently. God calls men and women to the married state so that their love may be made holy in lifelong union; that they may bring up their children to grow in grace and learn to love him; and that they may honour, help and comfort one another both in prosperity and in adversity.

The Ministry of the Word set out in the Order for Holy Matrimony may be used.

*Dywed yr Offeiriad wrth y mab:
E., a wyt yn cydnabod E. yn wraig i ti?*

*Ateb y mab:
Ydwyf.*

*Dywed yr Offeiriad:
A wnei di fyw gyda hi yn uffffud i ewyllys a bwriad Duw?
A wnei di ei charu, ei pharchu a'i chynnal, yn glaf ac yn
iach, a pharhau'n ffyddlon iddi, gan wrthod pawb arall,
tra byddwch eich dau byw?*

*Ateb y mab:
Gwnaf.*

*Dywed yr Offeiriad wrth y ferch:
E., a wyt yn cydnabod E. yn âr i ti?*

*Ateb y ferch:
Ydwyf.*

*Dywed yr Offeiriad:
A wnei di fyw gydag ef yn uffffud i ewyllys a bwriad Duw?
A wnei di ei garu, ei barchu a'i gynnal, yn glaf ac yn
iach, a pharhau'n ffyddlon iddo, gan wrthod pawb arall,
tra byddwch eich dau byw?*

*Ateb y ferch:
Gwnaf.*

The Priest says to the man:

N., do you acknowledge N. as your wife?

The man answers:

I do.

The Priest says:

Will you live with her in obedience to God's will and purpose? Will you love her, honour her and care for her, in sickness and in health? Will you be faithful to her, and her alone, as long as you both live?

The man answers:

I will

Then the Priest says to the woman:

N., do you acknowledge N. as your husband?

The woman answers:

I do

The Priest says:

Will you live with him in obedience to God's will and purpose? Will you love him, honour him and care for him, in sickness and in health? Will you be faithful to him, and him alone, as long as you both live?

The woman answers:

I will.

YR YMBILIAD

Penlinio

Hollalluog a thragwyddol Dduw, nertha dy weision hyn
E. ac *E.* â’th ras, fel y cadwant yr addewidion a wnaethant
yn dy âwydd:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Arhosed dy dangnefedd a’th fendith yn eu cartref:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Bendithia eu priodas â phlant, a chynorthwya hwynt i
fod yn rhieni cyfrifol; rho iddynt ddoethineb, cariad
ac amynedd i fagu ac i feithrin eu plant yn y ffydd
Gristionogol:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Nertha hwynt i gynnal beichiau ei gilydd a rhannu
llawenydd ei gilydd, ac felly gyflawni cyfraith Crist:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

Amliga dy gariad trwyddynt hwy a'u cartref, fel y
gogoneddir dy Enw sanctaidd:

Arglwydd, yn dy drugaredd;
Gwrando ein gweddi.

THE INTERCESSION

Kneel

Almighty and everlasting God, strengthen these your servants *N.* and *N* with your grace, that they may keep the promises they have made in your presence:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Let your peace be in their home, and your blessing upon it:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Bless their marriage with the gift of children. Help them to be responsible parents, and give them wisdom, love and patience to bring up their children in the Christian faith:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Enable them to bear one another's burdens and share or another's joys, that they may fulfil the law of Christ:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

Make your love known through them and their home, that your holy Name may be glorified:

Lord, in your mercy;
Hear our prayer.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Yna bendithia'r Offeiriad y ddeuddyd:

Duw Dad, Duw Fab, Duw Ysbryd Glân, a'ch bendithio,
eich diogelu a'ch cadw; edryched yr Arglwydd yn
drugarog arnoch, a'ch cyflenwi â phob bendith ysbrydol
a gras, ichwi fyw felly ynghyd yn y byd hwn, fel yn y byd
a ddaw y cewch fywyd tragwyddol. **Amen.**

*Y mae'n fuddiol i'r ddeuddyd dderbyn y Cymun Bendigaid ar y
cyfle cyntaf wedi bendithio eu priodas.*

*Y mae'r trydydd erfyniad yn yr Ymbiliad i'w ddefnyddio yn ôl
dewis yr Offeiriad.*

**Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power, and the glory,
for ever and ever. Amen.**

Then the Priest blesses the couple:

God the Father, God the Son, God the Holy Spirit,
bless, preserve, and keep you; the Lord mercifully with
his favour look upon you; and so fill you with all
spiritual benediction and grace, that you may so live
together in this life, that in the world to come you may
have life everlasting. **Amen.**

*It is fitting that the couple receive Holy Communion first
opportunity after the blessing of their marriage.*

*The third petition of the Intercession should be used at the discretion
of the Priest.*

**ATODIAD
O DDEUNYDD YCHWANEGOL**

**APPENDIX
OF SUPPLEMENTARY MATERIAL**

ATODIAD O DDEUNYDD YCHWANEGOL

Nodiadau

Ar y Gwasanaeth Priodas tudalen 79

Atodiad 1

Litwrgi'r Dod Ynghyd tudalen 82

Atodiad 2a

Rhagarweiniadau Eraill i'r

Gwasanaeth Priodas tudalen 83

Atodiad 2b

Rhagarweiniadau Eraill i Fendithio Priodas

yn Dilyn Seremoni Sifil tudalen 86

Atodiad 3

Colectau tudalen 90

Atodiad 4a

Cyhoeddi'r Gair tudalen 93

Atodiad 4b

Salmau tudalen 109

Atodiad 5

Gweddiau /

Datganiadau Eraill Dros y Modrwyau tudalen 111

Atodiad 6

Bendithio'r Ddeuddyd tudalen 112

Atodiad 7

Ymbiliau tudalen 114

Atodiad 8

Ffurf ar Gyfer Cysegriad Ychwanegol tudalen 118

APPENDIX OF SUPPLEMENTARY MATERIAL

Notes

To the Marriage Service page 79

Appendix 1

A Liturgy of The Gathering page 82

Appendix 2a

Alternative introductions to the Marriage Rite page 83

Appendix 2b

Alternative introductions to the Blessing of a
Marriage following a Civil Ceremony page 86

Appendix 3

Collects page 90

Appendix 4a

The Proclamation of The Word page 93

Appendix 4b

Psalms page 109

Appendix 5

Alternative Prayers /
Declarations over the Rings page 111

Appendix 6

Blessings over the Couple page 112

Appendix 7

Prayers of Intercessions page 114

Appendix 8

Form for additional Consecration page 118

Mae'r Atodiad yn cynnwys gwahanol ddewisiadau ac awgrymiadau ar gyfer y Gwasanaeth Priodas a'r Gwasanaeth Bendithio Priodas Sifil.

NODIADAU AR Y GWASANAETH PRIODAS

Paratoi

Traddodiad ac arfer yr Eglwys yng Nghymru yw cynnig paratoad at briodas i barau sydd i'w priodi'n fuan, a bod ar gael i roi cyngor a chynhaliaeth yn y blynnyddoedd sy'n dilyn.

Paratoadau Cyfreithiol

Fel rheol, gweinyddir priodas yn ôl defodau'r Eglwys yng Nghymru ar ôl cyhoeddi gostegion. Cyhoeddir y gostegion gan y gweinidog ym mhrif wasanaeth yr eglwys ar dri Sul yn ystod y tri mis cyn y briodas, a rhaid eu darllen yn y ffurf a ganlyn:

“Yr wyf yn cyhoeddi Gostegion Priodas rhwng *E* o [Blwyf] ac *E* o [’r Plwyf hwn]. Os gŵyr neb ohonoch am achos neu rwystro cyfawn paham na ellir uno’r ddeuddyd hyn mewn Glân Briodas, yr ydych i ddatgan hynny. Dyma’r tro cyntaf [yr ail dro / y trydydd tro] y gofynnir hyn.”

(Gellir dweud gweddi addas.)

Os bydd y ddau sydd i'w priodi yn byw mewn plwyfi gwahanol, rhaid cyhoeddi'r gostegion yn y ddau blwyf, ac ni all gweinidog y naill blwyf weinyddu'r briodas heb iddo dderbyn Tystysgrif Cyhoeddi'r Gostegion gan weinidog y plwyf arall. Rhaid i'r dystysgrif ddatgan na honnwyd unrhyw rwystr. Os yw enw'r naill neu'r llall o'r ddau sydd i'w priodi ar Rôl Etholwyr plwyf nad yw'r un ohonynt yn byw yn ddi, gellir gweinyddu'r briodas yn y plwyf hwnnw, os cyhoeddwyd y gostegion yn y plwyf hwnnw a hefyd yn y plwyf neu'r plwyfi lle y maent yn byw.

The Appendix contains various alternative items and suggestions for both the Marriage Service and the Blessing of a Civil Marriage.

THE MARRIAGE SERVICE

Preparation

It is the custom and practice of the Church in Wales to offer preparation for marriage for couples who are soon to be married, as well as to be available for support and counseling in the years that follow.

Legal Preliminaries

A marriage according the rites of the Church in Wales normally takes place after the publication of banns. The banns are to be published in the church at the principal service on three Sundays during the three months before the marriage and must be read in the following form:

“I publish the Banns of Marriage between *N* of [the Parish of] and *N* of [this Parish]. If any of you know(s) cause, or just impediment, why these two persons should not be joined together in Holy Matrimony, ye (you) are to declare it. This is the [first / second / third] time of asking.”

(A suitable prayer may be said.)

If those to be married live in different parishes, banns must be called in both parishes, and the minister of one parish shall not solemnize the marriage without the production of a Certificate of Banns from the minister of the other parish. The certificate must state that no impediment has been alleged. If the name of either of the persons to be married is on the Electoral Roll of a parish in which neither of them lives, the marriage may take place in that parish, provided that the banns have been published in that parish and in the parish or parishes in which they live.

Os cedwir yr holl amodau sifil ac eglwysig, gellir rhoi trwydded gyffredin trwy Syrogat i ganiatáu gweinyddu priodas heb ostegion. Mewn amgylchiadau eithriadol gall Archesgob Caergaint roi trwydded arbennig i ganiatáu gweinyddu heb ostegion.

Dod i mewn

Gall y briodferch ddod i mewn i'r eglwys ar ei phen ei hun, neu gael ei hebrwng gan ei thad neu gynrychiolydd o'r teulu neu gyfaill, neu gall y briodferch a'r priodfab ddod i mewn i'r eglwys gyda'i gilydd.

Cofrestru'r Briodas

Mae'r gyfraith yn gofyn cwblhau'r Cofrestri yn union wedi gweinyddu'r briodas. Fel rheol, fe wneir hynny ar ddiwedd y gwasanaeth, ond fe all ddigwydd ar ôl Bendithio'r Briodas. Rhaid i'r ddua a briodwyd, y gweinidog a oedd yn gweinyddu, a dau dyst i'r briodas arwyddo'r Cofrestri.

Y Cymun Bendigaid

Mae'n briodol bod aelodau sy'n gymunwyr yn yr Eglwys yn derbyn y cymun yn fuan ar ôl eu priodas. Yn achos rhai, gall fod yn briodol cynnal y briodas oddi mewn i weinyddiad o'r Cymun Bendigaid.

Darleniadau nas ceir yn y Beibl

Yn ôl doethineb y gweinidog, gellir cynnwys darleniadau addas nas ceir yn y Beibl.

Darpariaethau Eciwmenaid

Pan wahoddir gweinidog mewn Eglwys Gristnogol arall i gynorthwyo mewn Gwasanaeth Priodas, rhaid i weinidog yr Eglwys yng Nghymru sy'n gweinyddu'r briodas sicrhau nad oes rhwystr, cyfarwyddo'r cyfnewid addunedau, cyhoeddi'r briodas, rhoi'r fendith derfynol ac arwyddo'r Cofrestri.

If all civil and ecclesiastical conditions are satisfied, a common licence permitting the solemnization of matrimony without banns may be granted through a Surrogate. In exceptional circumstances, the Archbishop of Canterbury may grant a special licence which permits the solemnization without banns.

Entry

The bride may enter the church alone, or escorted by her father or a representative of the family or a friend, or the bride and groom may enter church together.

Registration of the Marriage

The law requires that the Registers be completed immediately after the solemnization of a marriage. This usually takes place at the end of the service, but may occur after the Blessing of the Marriage. The Registers must be signed by both parties to the marriage, the officiating minister, and two witnesses to the marriage.

Holy Eucharist

For communicant members of the Church it is appropriate that they receive communion soon after their marriage. For some this may make it appropriate for the marriage to take place within a Celebration of the Holy Eucharist.

Non-Biblical Readings

At the discretion of the Minister, appropriate non-biblical readings may be included.

Ecumenical Provisions

Where a minister of another Christian Church is to be invited to assist at the Solemnization of Matrimony, the Church in Wales minister who solemnizes the marriage must establish the absence of an impediment, direct the exchange of vows, declare the existence of the marriage, say the final blessing, and sign the Registers.

Rhwystr

Os bydd rhywun yn honni rhwystr yn ôl cyfraith Duw neu gyfreithiau'r wlad hon, rhaid iddo ymrwymo i dalu iawn am unrhyw golled ariannol i'r partïon os bydd ei achos yn eu herbyn yn methu. Pan wneir honiad o'r fath ac ymrwymo i ddigolledu, rhaid gohirio'r briodas nes profi'r gwirionedd. Os na honnir unrhyw rwystr, fe ddilyn Gweinidogaeth y Gair

NODIADAU AR FENDITHIO PRIODAS YN DILYN SEREMONI SIFIL

Pan fo deuddyn wedi priodi mewn Seremoni Sifil ac yn dymuno derbyn bendith yr Eglwys ar eu huniad, rhaid i'r gweinidog ofyn iddynt ddangos tystysgrif y briodas. Os yw'r gweinidog yn fodlon nad yw eu priodas yn groes i gyfreithiau'r Eglwys yng Nghymru, gall fynd ymlaen â'r drefn a ganlyn.

Ni elwir Gostegion ac ni chedwir cofnod yn y Gofrestr Priodasau.

Gall y gŵr a'r wraig wisgo modrwy(au) priodas neu, onis gwisgwyd eisoes, gellir eu bendithio a'u gwisgo yn ystod y gwasanaeth.

Bydd y gŵr a'r wraig yn cyrraedd gyda'i gilydd ac yn eistedd yn nhu blaen yr eglwys.

Gellir defnyddio Ymbiliau a Gweddïau priodol eraill a fydd yn adlewyrchu ffydd y ddeuddyn.

Impediment

If any person alleges an impediment which is recognized by God's law or the laws of this land, he must give an indemnity against any pecuniary loss, in the event of his allegation failing, which his action brings upon the parties. If such an allegation is made and an indemnity given, the marriage must be deferred until the truth has been established. If no impediment is alleged, the Ministry of the Word follows.

BLESSING OF A MARRIAGE FOLLOWING A CIVIL CEREMONY

When two persons have contracted a marriage at a Civil Ceremony and wish to receive the blessing of the Church upon their union, the minister shall ask them to produce the certificate of their marriage. If the minister is satisfied that their union is not contrary to the laws of the Church in Wales, they shall proceed in the form following.

Banns are not called nor any entry made in the Register of Marriages

Husband and wife may arrive wearing wedding ring(s), or if they have not been previously worn, they may be blessed and put on at the service.

Husband and wife should enter the church together and sit together at the front of the church.

Appropriate and alternative Intercessions and Prayers may be used which reflect the faith of the couple.

Atodiad 1

LITWRGI'R DOD YNGHYD

Y Briadferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn sefyll yma yng ngŵydd llawer o bobl sydd wedi lliwio tirwedd ein bywydau ac a fu'n gymdeithion inni ar ein taith.

Yr ydym yn eich croesawu ac yn diolch ichwi am fod gyda ni heddiw.

Pawb:

Bydded yr Arglwydd gyda chwi ar y diwrnod llawen hwn.

Y Briadferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn diolch i'n rhieni a'n teuluoedd sydd wedi ein magu a'n meithrin a chynorthwyo i'n gwneud yr hyn ydym.

Yr ydym yn eich croesawu ac yn diolch ichwi am bopeth a roddasoch inni.

Y Rhieni ac /neu Aelodau'r Teulu:

Bydded yr Arglwydd gyda chwi yn eich bywyd ynghyd.

Y Briadferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn galaru am bob cyfeillgarwch a adawsom ac am bob camgymeriad a wnaethom, ac yn gofyn am i ras a maddeuant Duw lewyrchu yn ein bywydau.

Gweinidog:

Bydded yr Arglwydd gyda chwi a rhodded i chwi'r hyder a'r dewrder i gofleidio'i gariad.

Y Briadferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn sefyll yma heddiw yng ngŵydd Duw, a dywalltodd ei gariad arnom, i ofyn am ei fendith ar ein priodas.

Appendix 1

A LITURGY OF THE GATHERING

Bride or Groom:

We stand here today in the presence of so many people who have coloured the landscape of our lives, people who have accompanied us on our journey. We welcome you and thank you for being with us today.

All:

May the Lord be with you on this joyful day.

Bride or Groom:

We thank our parents and families who have nurtured and nourished us, and helped to make us who we are. We welcome you and thank you for all you have given us.

Parents and/or Family Members:

May the Lord be with you in your life together.

Bride or Groom:

We stand in sorrow for all the friendships we have left behind, and all the mistakes we have made, and ask for God's grace and forgiveness to flourish in our lives.

Minister:

May the Lord be with you and give you the confidence and courage to embrace his love.

Bride or Groom:

We stand here today in the presence of God, who has poured his love upon us, to ask for his blessing upon our marriage.

Atodiad 2a

RHAGARWEINIADAU ERAILL I'R GWASANAETH PRIODAS

Gellir addasu'r rhain i'w defnyddio mewn Gwasanaeth Bendithio Priodas Sifil trwy hepgor y gofyn a oes rhwystrau i'r Briodas, a gofyn i'r ddeuddydai dyma eu dealltwriaeth o Lân Briodas.

- i. Yn y dechreuad, ffurfiodd Duw y ddaear a chreu'r nefoedd. Anadloedd fywyd i bob creadur byw, a lluniodd wr a gwraig ar ei ddelw ei hun.
Fe'n galwodd i fyw ynghyd yn ei gyfamod o gariad, wedi ein rhwymo y naill wrth y llall gan ei addewidion. Bendithiodd ei greadigaeth â phriodas yn arwydd o gariad, a thrwy lawenydd y bywyd priodasol deil i ddwyn trefn i anhrefn y byd.
Y mae priodas yn sylfaen gadarn i fywyd teuluol ac yn grud cariadus i eni a magu plant.

Wrth inni ddathlu ei gariad creadigol yn yr arwydd sacramentaidd hwn, gwediwn y bydd i anadl ei Ysbryd lenwi bywydau *E* ac *E* fel, yn rhwymau'r addewidion a wnânt, y datguddiant bresenoldeb Crist a'i wasanaethu mewn ffydd a chariad.

Os oes rheswm diliys paham na ddylid eu cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyd:

Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Appendix 2a

ALTERNATIVE INTRODUCTIONS TO THE MARRIAGE RITE

These may be adapted for use with the Blessing of a Civil Marriage by omitting the request for impediments to Marriage, and asking the couple if this is their understanding of Holy Matrimony.

- i. In the beginning, God formed the earth and created the heavens.
He breathed life into all living creatures, making man and woman in his own image.
He has called us to live together in his covenant of love, bound together by his own promises.
In marriage he has blessed his creation with a sign of love, and through the joys of married life he continues to bring order to the chaos of the world.
Marriage provides family life with a firm foundation, and a loving embrace into which children are born and nurtured.

As we celebrate his creative love in this sacramental sign we pray that the breath of his Spirit may fill the lives of *N* and *N*, so that, bound by the promises they make, they will reveal the presence of Christ and serve him with faith and love.

If there is a valid reason why they should not be joined together in marriage you must declare it now.

The minister then addresses the couple:

If you know any reason why, according to the law of the land or of this church, you may not be joined together in marriage you must now make it known.

- ii. Geilw Duw ni oll i fyw ynghyd mewn cariad, i nesáu at ein gilydd mewn parch a goddefgarwch, yn agored ac yn onest, i arddel ei ddymuniad ar gyfer y byd ac i greu cymuned lle y bydd Crist wrth galon popeth a wnawn a phopeth a ddywedwn.

Oddi mewn i'r alwad hon a'r cyfamod hwn o gariad, fe'n bendithiodd Duw â'r rhodd o briodas, lle y bydd gŵr a gwraig yn tyfu gyda'i gilydd i adnabod Duw ag un meddwl, i'w garu ag un galon ac i'w wasanaethu ag un ysbryd.

Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, ac ewyllys Duw yw bod geni a magu plant ym mynwes cariad gydol oes eu rhieni. Oddi mewn i'r teulu dylai pob un gael nerth a chynhaliaeth, gofal a chysur at bob amgylchiad mewn bywyd.

Trwy'r rhodd hon o briodas, dymuna Duw gryfhau'r gymuned gyfan a dwyn bendithion i bawb.

Gan i Dduw ein bendithio â'r fath rodd, dylai pawb fawrygu a pharchu priodas.

Ni ddylai neb briodi heb feddwl yn ddwys ac ystyried yn ddwfn y cyfan a olyga.

Dewisodd *E* ac *E* dderbyn y rhodd hon oddi wrth Dduw.

Gweddiwn drostynt, ar i Ysbryd Duw eu tywys a'u nerthu fel y bo i'w rodd lewyrchu yn eu bywyd a llewyrchu trwyddynt i'r holl gymuned.

Os oes unrhyw reswm diliys paham na all y ddeuddyd yn briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyd:

Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

- ii. God calls us all to live together in love, to draw closer to one another in respect and tolerance, in openness and honesty, to embrace his desire for the world and to create a community where Christ is at the heart of all we do and say.

Within that calling and covenant of love, God has blessed us with the gift of marriage, where husband and wife grow together to know God with one mind, to love him with one heart, to serve him with one spirit.

Marriage is the foundation of family life and it is God's will that children are born and nurtured within this loving, life long embrace of their parents.

Within this family each person should find strength and sustenance, care and comfort for every circumstance of life.

Through this gift of marriage, God desires to strengthen the whole community, bringing blessings to all.

Since God has graced us with such a gift, marriage should be revered and respected by all.

No one should embrace marriage without deep considerate thought and awareness of all it entails.

N. and N. have chosen to embrace this gift from God.

We pray for them that the Spirit of God will guide and strengthen them so that his gift will flourish in their lives and, through them, to the whole community.

If there is a valid reason why they should not be joined together in marriage you must declare it now.

The minister then addresses the couple:

If you know any reason why, according to the law of the land or of this church, you may not be joined together in marriage you must now make it known.

- iii. Y mae Duw'n arllwys ei roddion arnom, yn ein llenwi â'i gariad, ac yn ein galw i fyw ynghyd i greu cymuned lle y perchir pawb.
Un o'r rhoddion hyn yw priodas. Fe'i rhoddir fel y gall gŵr a gwraig ymrwymo y naill i'r llall mewn cyfamod o gariad, gan addo byw ynghyd am weddill eu bywydau. Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, a dull Duw o ddwyn llawenydd a sefydlogrwydd i gymdeithas.
Geilw Duw wr a gwraig i fyw yn unol â'i gynllun i'r byd ac i ddarparu cartref cariadus i blant lle y gall pob un yn y teulu dyfu i'w adnabod ef a'i gariad atynt.
Dylai pawb felly anrhodeddu priodas.

Saif E ac E gerbron Duw i'w cyflwyno eu hunain yn briod y naill i'r llall ac i ofyn i Dduw fendithio eu priodas.

Y maent yn gwneud hyn ar ôl dwys feddwl ac ystyried. Safant hefyd ger eich bron chwi, eu cyfeillion a'u teulu, a'ch gwahodd i rannu eu llawenydd ac i'w cefnogi yn y ffordd o fyw y galwyd hwy iddi.

Os oes unrhyw reswm paham y credwch na ddylid eu cysylltu ynghyd, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyd:

Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

- iii. God lavishes his gifts upon us, filling us with his love, and calling us to live together to create a community where all are respected.
- Marriage is one of these gifts.
- It is given so that a man and a woman may pledge themselves to one another in a covenant of love, promising to live together for the rest of their lives.
- Marriage is the foundation of family life and the means through which God brings joy and stability to society, calling husband and wife to live according to his plan for the world, providing children with a loving home, where all within the family grow to know God and his love for them.
- Marriage should therefore be held in honour by all.

N and *N.* stand before God, offering themselves to one another in marriage, asking God to bless their marriage. They do this after much thought and consideration. They also stand before you, their friends and family, inviting you to share their joy, and to encourage them in the way of life to which they have been called.

If there is any reason why you believe they should not be joined together you should now make it known

The minister then addresses the couple:

If you know any reason why, according to the law of the land or of this church, you may not be joined together in marriage you must now make it known.

Atodiad 2b

RHAGARWEINIADAU ERAILL I FENDITHIO PRIODAS YN DILYN SEREMONI SIFIL

- i. Geilw Duw ni oll i fyw ynghyd mewn cariad, i nesáu at ein gilydd mewn parch a goddefgarwch, yn agored ac yn onest, i arddel ei ddymuniad ar gyfer y byd ac i greu cymuned lle y bydd Crist wrth galon popeth a wnawn a phopeth a ddywedwn.

Oddi mewn i'r alwad hon a'r cyfamod hwn o gariad, fe'n bendithiodd Duw â'r rhodd o briodas, lle y bydd gŵr a gwraig yn tyfu gyda'i gilydd i adnabod Duw ag un meddwl, i'w garu ag un galon ac i'w wasanaethu ag un ysbryd.

Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, ac ewyllys Duw yw bod geni a magu plant ym mynwes cariad gydol oes eu rhieni.

Oddi mewn i'r teulu dylai pob un gael nerth a chynhaliaeth, gofal a chysur at bob amgylchiad mewn bywyd.

Trwy'r rhodd hon o briodas, dymuna Duw gryfhau'r gymuned gyfan a dwyn bendithion i bawb.

Gan i Dduw ein bendithio â'r fath rodd, dylai pawb fawrygu a pharchu priodas.

Ni ddylai neb briodi heb feddwl yn ddwys ac ystyried yn ddwfn y cyfan a olyga.

Eisoes derbyniodd *E* ac *E* y rhodd hon oddi wrth Dduw.

Gweddiwn drostynt, ar i Ysbryd Duw eu tywys a'u nerthu fel y bo i'w rodd lewyrchu yn eu bywyd a llewyrchu trwyddynt i'r holl gymuned.

Appendix 2b

ALTERNATIVE INTRODUCTIONS TO THE BLESSING OF A MARRIAGE FOLLOWING A CIVIL CEREMONY

- i. God calls us all to live together in love, to draw closer to one another in respect and tolerance, in openness and honesty, to embrace his desire for the world and to create a community where Christ is at the heart of all we do and say.

Within that calling and covenant of love, God has blessed us with the gift of marriage, where husband and wife grow together to know God with one mind, to love him with one heart, to serve him with one spirit.

Marriage is the foundation of family life and it is God's will that children are born and nurtured within this loving, life long embrace of their parents.

Within this family each person should find strength and sustenance, care and comfort for every circumstance of life.

Through this gift of marriage,
God desires to strengthen the whole community,
bringing blessings to all.

Since God has graced us with such a gift, marriage should be revered and respected by all.

No one should embrace marriage without deep, considerate thought and awareness of all it entails.

N and N have already embraced this gift from God and now ask God to bless their marriage.

We pray for them that the Spirit of God will guide and strengthen them so that his gift will flourish in their lives and, through them, to the whole community.

- ii. Y mae Duw'n arllwys ei roddion arnom, yn ein llenwi â'i gariad, ac yn ein galw i fyw ynghyd i greu cymuned lle y perchir pawb.
Un o'r rhoddion hyn yw priodas.
Fe'i rhoddir fel y gall gwâr a gwraig ymrwymo y naill i'r llall mewn cyfamod o gariad, gan addo byw ynghyd am weddill eu bywydau.
Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, a dull Duw o ddwyn llawenydd a sefydlogrwydd i gymdeithas.
Geilw Duw wr a gwraig i fyw yn unol â'i gynllun ar gyfer y byd ac i ddarparu cartref cariadus i blant lle y gall pob un yn y teulu dyfu i'w adnabod ef a'i gariad atynt.
Dylai pawb felly anrhydeddu priodas.

Saif *E* ac *E* gerbron Duw yn bâr priod i ofyn i Dduw fendithio eu priodas.
Y maent yn gwneud hyn ar ôl meddwl ac ystyried yn ddwys.
Safant hefyd ger eich bron chwi, eu cyfeillion a'u teulu, a'ch gwahodd i rannu eu llawenydd ac i'w cefnogi yn y ffordd o fyw y galwyd hwy iddi.

- ii. God lavishes his gifts upon us, filling us with his love, and calling us to live together to create a community where all are respected.
Marriage is one of these gifts.
It is given so that a man and a woman may pledge themselves to one another in a covenant of love, promising to live together for the rest of their lives.
Marriage is the foundation of family life and the means through which God brings joy and stability to society, calling husband and wife to live according to his plan for the world, providing children with a loving home, where all within the family grow to know God and his love for them.
Marriage should therefore be held in honour by all.

N and *N* stand before God as a married couple asking God to bless their marriage.
They do this after much thought and consideration.
They also stand before you, their friends and family, inviting you to share their joy, and to encourage them in the way of life to which they have been called.

- iii. Yn y dechreuad, ffurfiodd Duw y ddaear a chreu'r nefoedd.
Anadlodd fywyd i bob creadur byw, a lluniodd âr a gwraig ar ei ddelw ei hun.
Fe'n galwodd i fyw ynghyd yn ei gyfamod o gariad, wedi ein rhwymo y naill wrth y llall gan ei addewidion. Bendithiodd ei greadigaeth â phriodas yn arwydd o gariad, a thrwy lawenydd y bywyd priodasol deil i ddwyn trefn i anhrefn y byd.
Y mae priodas yn sylfaen gadarn i fywyd teuluol ac yn grud cariadus i eni a magu plant.

Wrth inni ddathlu ei gariad creadigol yn yr arwydd sacramentaidd hwn, gweddiwn y bydd i anadl ei Ysbryd lenwi bywydau *E* ac *E* fel, yn rhwymau'r addewidion a wnaethant eisoes, y datguddiant bresenoldeb Crist a'i wasanaethu mewn ffydd a chariad.

iii. In the beginning, God formed the earth and created the heavens.

He breathed life into all living creatures, making man and woman in his own image.

He has called us to live together in his covenant of love, bound together by his own promises.

In Marriage he has blessed his creation with a sign of love, and through the joys of married life he continues to bring order to the chaos of the world.

Marriage provides family life with a firm foundation, and a loving embrace into which children are born and nurtured.

As we celebrate his creative love in this sacramental sign, we pray that the breath of his Spirit may fill the lives of *N* and *N*, so that bound by the promises they have already made, they will reveal the presence of Christ and serve him with faith and love.

- iv Daethom ynghyd mewn llawenydd am fod *E* ac *E*,
sydd eisoes yn briod, am ofyn am fendith Duw ar eu
priodas.
Rhodd oddi wrth Dduw yw priodas.
Trwyddi gall gŵr a gwraig gyd-dyfu yn eu hadnabyddiaeth
o Dduw, eu cariad ato a'u gwasanaeth iddo.
Fe'i rhoddir fel y gallant, a hwythau'n un â'i gilydd o
galon a meddwl a chorff, gynyddu mewn cariad ac
ymddiriedaeth.
Y mae Duw yn uno gŵr a gwraig mewn uniad am oes
sy'n sylfaen i fywyd teuluol, lle (y genir ac y megir plant
ac) y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac
amseroedd drwg, gael nerth, cwmnïaeth a chysur a
thyfu i aeddfedrwydd mewn cariad.
Y mae priodas yn cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r
gymuned.
Y mae priodas yn ffordd o fyw a sancteiddiwyd gan
Dduw ac y dylai pawb ei pharchu a'i hanrhydeddu.
Ni ddylai neb ei chymryd arno'n ysgafn nac yn hunanol,
ond yn bwyllog ac yn gyfrifol yng ngŵydd Duw Hollalluog.
Y mae *E* ac *E* yn awr am gymryd y ffordd hon o fyw.
Gweddiwn gyda hwy y bydd i'r Ysbryd Glân eu
cyfarwyddo a'u nerthu, fel y cyflawnant amcanion Duw
gydol eu bywyd daearol ynghyd.

- iv We have come together in joy because N and N, who are already married to each other, want to ask God's blessing on their marriage.
- Marriage is a gift of God through which husband and wife may grow together in the knowledge, love and service of God so that, united with one another in heart, body and mind, they may increase in love and trust. God joins husband and wife in life-long union as the foundation of family life (in which children are born and nurtured and) in which each member of the family, in good times and in bad, may find strength, companionship and comfort, and grow to maturity in love.
- Marriage enriches society and strengthens community.

Marriage is a way of life made holy by God, which all should uphold and honour.
No one should enter into it lightly or selfishly, but reverently and responsibly in the sight of Almighty God.

N and N are now to enter this way of life.
We pray with them that the Holy Spirit will guide and strengthen them, that they may fulfil God's purpose for the whole of their earthly life together.

Atodiad 3

COLECTAU

- i. Dad nefol,
y mae pob calon yn agored i ti.
Ni allwn guddio un dim oddi wrthyt.
Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân
er mwyn inni dy garu a’th addoli’n ffyddlon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
- ii. O Dduw ein Tad,
trwy amserau a thymhorau a thro’r blynnyddoedd,
trwy broffwydi a phatriarchiaid a gwŷr a gwragedd
duwiol, datguddiaist dy gynllun ar gyfer y byd.
Yng Nghrist gwneir dy gynllun yn glir, gelwi ni i garu
ein gilydd fel y carodd ef ni.
Wrth inni ddathlu cariad *E* ac *E* at ei gilydd ac
ymlawenhau yn eu bywyd ynghyd, bydded i’w cariad
ffynnau a blodeuo ac i’w bywydau ddatguddio gwanwyn
dy deyrnas, lle y gwneir pob peth yn newydd a’i ddwyn i
gyflawnder Duw.
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**
- iii. O Dduw ein Tad,
trwy fflam dyner dy Ysbryd daeth Crist i ymgartrefu
gyda ni, i gynhesu ein calonnau ac i hysbysu ei
bresenoldeb i eraill.
Bydded priodas *E* ac *E* yn arwydd o’r ffordd y gelwir ni
i fyw, yn llawn llawenydd a sancteiddrwydd ac yn
ymlawenhau ym mhob peth a ddysgodd Crist inni.
Gofynnwn hyn yn enw Crist yr Arglywydd. **Amen.**

Appendix 3

COLLECTS

- i. Almighty God,
all hearts are open to you,
no secrets are hidden from you.
Purify us with the fire of your Holy Spirit
that we may love and worship you faithfully;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

- ii. God our Father,
through times and seasons and the turning of the years,
through prophets and patriarchs and holy men and
women you have revealed your plan for the world.
In Christ your plan is made clear, calling us to love one
another as he has loved us.
As we celebrate *N* and *N*'s love for one another and
rejoice in their life together, let their love flourish and
blossom and their lives reveal the spring time of your
kingdom, where all things are made new and brought to
completion.
We ask this through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

- iii. God our Father,
through the gentle flame of the Spirit, Christ has come
to make his home with us, to warm our hearts and make
his presence known to others.
May the marriage of *N* and *N* to one another be a sign
of how we are called to live, filled with joy and holiness
and delighting in all that Christ has taught us.
We ask this in the name of Christ the Lord. **Amen.**

- iv. Dad cariadus,
yr wyt yn perffeithio popeth sy'n annigonol ynom
ac yn gwneud ein llawenydd yn gyflawn, yr wyt yn
cyflenwi ein hanghenion ac yn ein llenwi â dyhead
i garu.
Llifed dy gariad yn awr trwy ein bywydau wrth i'n
calonnau orlifo â llawenydd ar ddydd y briodas hon.
Rhodder inni arwydd o bresenoldeb Iesu, y gwestai
anweledig, a gadawer inni yfed o win newydd dy
deyrnas.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**
- v. (*Nid yw i'w ddefnyddio gyda Rhagarweiniad iii.*)
O Dduw ein Tad,
yn y dechreuad ffurfiaist y ddaear a chreu'r nefoedd,
anadlu bywyd i bob creadur byw, a llunio
gŵr a gwraig ar dy ddelw dy hun.
Fe'n gelwi i fyw ynghyd yn dy gyfamod o gariad,
wedi ein rhwymo y naill i'r llall gan dy addewidion.
Bendithiaist dy greadigaeth â phriodas yn arwydd
o'th gariad, a thrwy lawenydd y bywyd priodasol
yr wyt yn dal i ddwyn trefn i anhhrefn y byd.
Wrth inni ddathlu dy gariad creadigol yn yr arwydd
sacramentaidd hwn, anadla dy fywyd ar *E* ac *E* fel,
yn rhwymau'r addewidion a wnânt, y datguddiant
bresenoldeb dy Fab a'th wasanaethu di mewn ffydd
a chariad.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**
- vi. Dad cariadus,
wrth roi priodas yn rhodd i'r byd, rhoddaist arwydd
o'th gariad i bawb sydd am ddilyn ffordd dy Fab.
Trwy fywyd *E* ac *E* ynghyd bydded i freichiau
estynedig Crist gyffwrdd â phawb y cyfarfyddont â
hwy ac arwyddo dy bresenoldeb yn y byd;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

- iv. Loving Father,
you perfect our inadequacies and complete our joy,
you fulfil our needs and fill us with a desire to love.
Let your love now flow through our lives as our hearts
swell with joy on this wedding day.
May we be given a sign of the presence of Jesus,
the unseen guest, and drink the new wine of your kingdom.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**
- v. (*Not to be used with Alternative Introduction iii.*)
God our Father,
in the beginning you formed the earth and created
the heavens, and breathed life into all living creatures,
making man and woman in your own image.
You call us to live together in your covenant of love,
bound together by the promises you have made.
In marriage you bless your creation with a sign of your
love, and through the joys of married life you continue
to bring order to the chaos of the world.
As we celebrate your creative love in this sacramental
sign breathe your life upon N. and N so that bound by
the promises they make they will reveal the presence of
your Son and serve you with faith and love.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**
- vi. Loving Father,
in your gift of marriage to the world you give us a sign
of your loving embrace to all who desire to follow the
way of your Son.
Through N and N's life together may the outstretched
arms of Christ reach out to all they meet and give a
sign of your presence in the world;
through Christ our Lord. **Amen.**

- vii. O Dad,
cael dy gariad yn rhodd, yn anad un dim arall, sy'n
dwyn cynghanedd a thangnedefedd i'r byd: nid oes ffiniau
i'w ffydd na therfynau i'w obaith, y mae'n goddef i'r
eithaf ac yn cydlawenhau â'r gwirionedd.
Wrth inni ddathlu cariad *E* ac *E* at ei gilydd a llawenhau
yn yr addewidion a wnaethant (*neu*: a wnânt), dillader
hwy â gwisgoedd dy gariad a'u llenwi â'r llawenydd o
adnabod dy bresenoldeb yn eu bywyd.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**
- viii. Arglwydd bywyd, Rhoddwr llawenydd, wrth inni
ymgynnnull i ddathlu priodas *E* ac *E*, gelwi ni i wledda
ar dy air ac i yfed gwin newydd dy deyrnas.
Bydded y briodas yr ydym yn ei dathlu yn arwydd o
wledd dragwyddol dy Fab lle y llawenhawn am byth
yn dy bresenoldeb, ein Brenin a'n Duw. **Amen.**
- ix. Dduw ein Tad,
fe'n dysgaist trwy dy Fab
mai cariad yw cyflawniad y gyfraith;
caniatâ i'th wasanaethyddion *E* ac *E*,
o garu ei gilydd,
aros yn dy gariad hyd ddiweddu eu hoes;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

- vii. Father,
your gift of love, above all other things, brings harmony and peace to the world: its faith has no bounds, its hope has no limits, it endures all things and delights in the truth.
As we celebrate *N* and *N*'s love for one another and rejoice in the vows they have made (*or: are to make*) may they be clothed in the garments of love and be filled with the joy of knowing your presence in their lives.
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**
- viii. Lord of life and Giver of joy, as we gather to celebrate the marriage of *N* and *N*, you call us to feast on your word, and drink the new wine of your kingdom.
May the marriage we celebrate be a sign of the everlasting banquet of your Son where we rejoice in your presence forever our King and our God. **Amen.**
- ix. God our Father,
you have taught us through your Son
that love is the fulfilling of the Law:
grant to your servants *N* and *N*
that, loving one another,
they may remain in your love until their lives' end;
through Jesus Christ our Lord,
who lives and reigns with you
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and always. **Amen**

Atodiad 4a

CYHOEDDI'R GAIR

Gellir cymryd y darleniadau o un o'r setiau a ganlyn a ddosbarthwyd yn ôl thema.

i. **TAITH**

I ble bynnag yr ei di, fe af finnau Ruth 1. 16-17

Ond meddai Ruth, "Paid â'm hannog i'th adael, na throi'n ôl oddi wrthyt, oherwydd i ble bynnag yr ei di, fe af finnau; ac ym mhle bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw innau. Lle y byddi di farw, y byddaf finnau farw ac yno y'm cleddir. Fel hyn y gwnelo'r Arglywydd i mi, a rhagor, os bydd unrhyw beth ond angau yn ein gwahanu ni."

Awn yn hen yng nghwmni'n gilydd Tobit 8. 5b-8

Fel hyn y dechreuodd Tobias weddio: "Bendigedig wyt ti, Dduw ein hynafiaid, a bendigedig fydd dy enw o genhedlaeth i genhedlaeth am byth. Bendithied y nefoedd a'th holl greadigaeth dydi yn oes oesoedd! Tydi a wnaeth Adda, a gwnaethost Efa ei wraig hefyd i fod yn gymorth ac yn gefn iddo, ac o'r ddeuddynt yma y deilliodd yr hil ddynol. Tydi a ddywedodd, 'Nid da i'r dyn fod ar ei ben ei hun; gwnawn iddo gymar yn gymorth iddo.' Yn awr, felly, nid mewn puteindra yr wyf yn cymryd fy chwaer hon, ond mewn gwir briodas. Caniatâ dy drugaredd arnaf fi ac arni hithau, er mwyn inni fyw yn hen yng nghwmni'n gilydd." Ac meddai'r ddau gyda'i gilydd, "Amen, Amen."

Appendix 4a

THE PROCLAMATION OF THE WORD

Readings may be taken from one of the following sets of readings which are arranged by theme.

i. **JOURNEY**

Where you go, I will go

Ruth 1. 16-17

But Ruth said, ‘Do not press me to leave you or to turn back from following you! Where you go, I will go; where you lodge, I will lodge; your people shall be my people, and your God my God. Where you die, I will die; there will I be buried. May the Lord do thus and so to me, and more as well, if even death parts me from you!’

May we grow old together

Tobit 8. 5b-8

Tobias began by saying, ‘blessed are you, O God of our ancestors, and blessed is your name in all generations for ever. Let the heavens and the whole creation bless you for ever. You made Adam, and for him you made his wife Eve as a helper and support. From the two of them the human race has sprung. You said, “It is not good that the man should be alone; let us make a helper for him like himself.” I now am taking this kinswoman of mine, not because of lust, but with sincerity. Grant that she and I may find mercy and that we may grow old together.’ And they both said, ‘Amen, Amen.’

Peidiwch â phryderu am eich einioes

Luc 12. 22-31

Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Am hynny rwy'n dweud wrthych, peidiwch â phryderu am eich bywyd nac am eich corff, beth i'w fwyta na beth i'w wisgo. Oherwydd y mae mwy i fywyd rhywun na bwyd, a mwy i'w gorff na dillad. Ystyriwch y brain: nid ydynt yn hau nac yn medi, nid oes ganddynt ystordy nac ysgubor, ac eto y mae Duw yn eu bwydo. Gymaint mwy gwerthfawr ydych chwi na'r adar! A phrun ohonoch a all ychwanegu munud at ei oes trwy bryderu? Felly os yw hyd yn oed y peth lleiaf y tu hwnt i'ch gallu, pam yr ydych yn pryderu am y gweddill? Ystyriwch y lili, pa fod y maent yn tyfu: nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu; ond rwy'n dweud wrthych, nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogonianit wisg i'w chymharu ag un o'r rhain. Os yw Duw yn dilladu felly y glaswellt, sydd heddiw yn y meysydd ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn, gymaint mwy y dillada chwi, chwi o ychydig ffydd! A chwithau, peidiwch â rhoi eich bryd ar beth i'w fwyta a beth i'w yfed, a pheidiwch â byw mewn pryder; oherwydd dyna'r holl bethau y mae cenhedloedd y byd yn eu ceisio, ond y mae gennych chwi Dad sy'n gwybod fod arnoch eu hangen. Ceisiwch yn hytrach ei deyrnas ef, a rhoir y pethau hyn yn ychwaneg i chwi.

Trysor syml

Luc 12. 32-34

Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan; oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas. Gwerthwch eich eiddo a rhowch ef yn elusen; gwnnewch i chwi eich hunain byrsau nad ydynt yn treulio, trysor dihysbydd yn y nefoedd, lle nad yw lleidr yn dod ar y cyfyl, na gwyfyn yn difa. Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon.

Do not worry about your life

Luke 12. 22-31

Jesus said to his disciples, ‘Therefore I tell you, do not worry about your life, what you will eat, or about your body, what you will wear. For life is more than food, and the body more than clothing. Consider the ravens: they neither sow nor reap, they have neither storehouse nor barn, and yet God feeds them. Of how much more value are you than the birds! And can any of you by worrying add a single hour to your span of life? If then you are not able to do so small a thing as that, why do you worry about the rest? Consider the lilies, how they grow: they neither toil nor spin; yet I tell you, even Solomon in all his glory was not clothed like one of these. But if God so clothes the grass of the field, which is alive today and tomorrow is thrown into the oven, how much more will he clothe you - you of little faith! And do not keep striving for what you are to eat and what you are to drink, and do not keep worrying. For it is the nations of the world that strive after all these things, and your Father knows that you need them. Instead, strive for his kingdom, and these things will be given to you as well.

Simple treasure

Luke 12. 32-34

Do not be afraid, little flock; for it is your Father’s good pleasure to give you the kingdom. Sell your possessions, and give alms. Make purses for yourselves that do not wear out, an unfailing treasure in heaven, where no thief comes near and no moth destroys. For where your treasure is, there your heart will be also.

Bydded i Grist breswylio yn eich calonnau

Effesiaid 3. 14-19

Oherwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau gerbron y Tad, yr hwn y mae pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear yn cymryd ei enw oddi wrtho, ac yn gweddio ar iddo ganiatáu i chwi, yn ôl cyfoeth ei ogoniant, gryfder a nerth mewnol trwy'r Ysbryd, ac ar i Grist breswylio yn eich calonnau drwy ffydd. Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnder, hyd at holl gyflawnder Duw.

ii. **CARIAD**

Fy nghariad, fy mhrydferth Caniad Solomon 2. 8-14

Ust! Dyma fy nghariad, dyma ef yn dod; y mae'n neidio ar y mynyddoedd, ac yn llamu ar y bryniau. Y mae fy nghariad fel gafrewig, neu hydd ifanc; dyna ef yn sefyll y tu allan i'r mur, yn edrych trwy'r ffenestri, ac yn syllu rhwng y dellt. Y mae fy nghariad yn galw arnaf ac yn dweud wrthyf, "Cod yn awr, fanwylyd, a thyrd, fy mhrydferth; oherwydd edrych, aeth y gaeaf heibio, ciliodd y glaw a darfu; y mae'r blodau'n ymddangos yn y meysydd, daeth yn amser i'r adar ganu, ac fe glywir cân y durtur yn ein gwlaid; y mae'r ffigysbren yn llawn ffigys ir, a blodau'r gwinwydd yn gwasgaru aroglau peraidd. Cod yn awr, fanwylyd, a thyrd, fy mhrydferth." Fy ngholomen, sydd yn encilion y graig, yng nghysegod y clogwyni, gad imi weld dy wyneb, a chlywed dy lais, oherwydd y mae dy lais yn swynol, a'th wyneb yn brydferth.

May Christ dwell in your hearts

Ephesians 3. 14-19

For this reason I bow my knees before the Father, from whom every family in heaven and on earth takes its name. I pray that, according to the riches of his glory, he may grant that you may be strengthened in your inner being with power through his Spirit, and that Christ may dwell in your hearts through faith, as you are being rooted and grounded in love. I pray that you may have the power to comprehend, with all the saints, what is the breadth and length and height and depth, and to know the love of Christ that surpasses knowledge, so that you may be filled with all the fullness of God.

ii. **LOVE**

My love, my fair one

Song of Solomon 2. 8-14

The voice of my beloved! Look, he comes, leaping upon the mountains, bounding over the hills. My beloved is like a gazelle or a young stag. Look, there he stands behind our wall, gazing in at the windows, looking through the lattice. My beloved speaks and says to me: 'Arise, my love, my fair one, and come away; for now the winter is past, the rain is over and gone. The flowers appear on the earth; the time of singing has come, and the voice of the turtle-dove is heard in our land. The fig tree puts forth its figs, and the vines are in blossom; they give forth fragrance. Arise, my love, my fair one, and come away. O my dove, in the clefts of the rock, in the covert of the cliff, let me see your face, let me hear your voice; for your voice is sweet, and your face is lovely.'

Y mwyaf o'r rhain yw cariad

1 Corinthiaid 12.31 - 13.13

Ond rhowch eich bryd ar y doniau gorau. Ac yr wyf am ddangos i chwi ffordd ragorach fyth.

Os llefaraf â thafodau meidrolion ac angylion, a heb fod gennyf gariad, efydd swnllyd ydwylf, neu symbol aflafar. Ac os oes gennyf ddawn proffwydo, ac os wyf yn gwybod y dirgelion i gyd, a phob gwybodaeth, ac os oes gennyf gymaint o ffydd nes gallu symud mynyddoedd, a heb fod gennyf gariad, nid wyf ddim. Ac os rhof fy holl feddiannau i borthi eraill, ac os rhof fy nghorff yn aberth, a hynny er mwyn ymffrostio, a heb fod gennyf gariad, ni wna hyn ddim lles imi.

Y mae cariad yn amyneddggar; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cefnigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyyddo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwyltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirioneedd. Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.

Nid yw cariad yn darfod byth. Ond proffwydoliaethau, fe'u diddymir hwy; a thafodau, bydd taw arnynt hwy; a gwybodaeth, fe'i diddymir hithau. Oherwydd anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni. Ond pan ddaw'r hyn sy'n gyflawn, fe ddiddymir yr hyn sy'n anghyflawn. Pan oeddwn yn blentyn, fel plentyn yr oeddwn yn llefaru, fel plentyn yr oeddwn yn meddwl, fel plentyn yr oeddwn yn rhesymu. Ond wedi dod yn ddyn, yr wyf wedi rhoi heibio bethau'r plentyn. Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb. Yn awr, anghyflawn yw fy ngwybod; ond yna, caf adnabod fel y cefais innau fy adnabod. Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.

The greatest is love

1 Corinthians 12.31 - 13.13

But strive for the greater gifts. And I will show you a still more excellent way.

If I speak in the tongues of mortals and of angels, but do not have love, I am a noisy gong or a clanging cymbal. And if I have prophetic powers, and understand all mysteries and all knowledge, and if I have all faith, so as to remove mountains, but do not have love, I am nothing. If I give away all my possessions, and if I hand over my body so that I may boast, but do not have love, I gain nothing.

Love is patient; love is kind; love is not envious or boastful or arrogant or rude. It does not insist on its own way; it is not irritable or resentful; it does not rejoice in wrongdoing, but rejoices in the truth. It bears all things, believes all things, hopes all things, endures all things.

Love never ends. But as for prophecies, they will come to an end; as for tongues, they will cease; as for knowledge, it will come to an end. For we know only in part, and we prophesy only in part; but when the complete comes, the partial will come to an end. When I was a child, I spoke like a child, I thought like a child, I reasoned like a child; when I became an adult, I put an end to childish ways. For now we see in a mirror, dimly, but then we will see face to face. Now I know only in part; then I will know fully, even as I have been fully known. And now faith, hope, and love abide, these three; and the greatest of these is love.

Y cariad sy'n rhwymyn perffeithrwydd

Colosaid 3. 12-17

Am hynny, fel etholedigion Duw, sanctaidd ac annwyl,
gwisgwch amdanoch dynerwch calon, caredigrwydd,
gostyngeiddrwydd, addfwynder ac amyned.
Goddefwch eich gilydd, a maddeuwch i'ch gilydd os
bydd gan rywun gwŷn yn erbyn rhywun arall; fel y
maddeuodd yr Arglwydd i chwi, felly gwnewch
chwithau.

Tros y rhain i gyd gwisgwch gariad, sy'n rhwymyn
perffeithrwydd. Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu
yn eich calonnau; i hyn y cawsoch eich galw, yn un
corff. A byddwch yn ddiolchgar. Bydded i air Crist
breswyllo ynoch yn ei gyfoeth. Dysgwch a rhybuddiwr
eich gilydd gyda phob doethineb. Â chalonnau
diolchgar canwch i Dduw salmau ac emynau a
chaniadau ysbrydol. Beth bynnag yr ydych yn ei wneud,
ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr
Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad,
drwyddo ef.

Ni all dyfroedd lawer ddiffodd cariad

Caniad Solomon 8. 6-7

Gosod fi fel sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich;
otherwydd y mae cariad mor gryf â marwolaeth, a nwyd
mor greulon â'r bedd; y mae'n llosgi fel ffaglau tanllyd, fel
fflam angerddol. Ni all dyfroedd lawer ddiffodd cariad,
ac ni all afonydd ei foddi.

Pe byddai rhywun yn cynnig holl gyfoeth ei dŷ am
gariad, byddai hynny yn cael ei ddirmygw'n llwyr.

The love which binds together

Colossians 3. 12-17

As God's chosen ones, holy and beloved, clothe yourselves with compassion, kindness, humility, meekness, and patience. Bear with one another and, if anyone has a complaint against another, forgive each other; just as the Lord has forgiven you, so you also must forgive.

Above all, clothe yourselves with love, which binds everything together in perfect harmony. And let the peace of Christ rule in your hearts, to which indeed you were called in the one body. And be thankful. Let the word of Christ dwell in you richly; teach and admonish one another in all wisdom; and with gratitude in your hearts sing psalms, hymns, and spiritual songs to God. And whatever you do, in word or deed, do everything in the name of the Lord Jesus, giving thanks to God the Father through him.

Many waters cannot quench love

Song of Solomon 8. 6-7

Set me as a seal upon your heart, as a seal upon your arm; for love is strong as death, passion fierce as the grave. Its flashes are flashes of fire, a raging flame. Many waters cannot quench love, neither can floods drown it. If one offered for love all the wealth of one's house, it would be utterly scorned.

O Dduw y mae cariad

1 Ioan 4. 7-16

Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw. Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw. Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau. Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd. Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; os ydym yn caru ein gilydd, y mae Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni.

Dyma sut yr ydym yn gwybod ein bod yn aros ynddo ef, ac ef ynom ninnau: am iddo ef roi inni o'i Ysbryd. Yr ydym ni wedi gweld, ac yr ydym yn tystiolaethu bod y Tad wedi anfon ei Fab yn Waredwr y byd. Pwy bynnag sy'n cyffesu mai Iesu yw Mab Duw, y mae Duw yn aros ynddo, ac yntau yn Nuw. Felly yr ydym ni wedi dod i adnabod a chredu'r cariad sydd gan Dduw tuag atom. Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.

Cariad a diolchgarwch

Luc 7. 36-38

Gwahoddodd un o'r Phariseaid Iesu i bryd o fwyd gydag ef. Aeth ef i dŷ'r Pharisead a chymryd ei le wrth y bwrdd. A dyma wraig o'r dref oedd yn bechadures yn dod i wybod ei fod wrth bryd bwyd yn nhŷ'r Pharisead. Daeth â ffiol alabastr o ennaint, a sefyll y tu ôl iddo wrth ei draed gan wylo. Yna dechreuodd wlychu ei draed â'i dagrau a'u sychu â gwallt ei phen; ac yr oedd yn cusaru ei draed ac yn eu hiro â'r ennaint.

Love is from God

1 John 4. 7-16

Beloved, let us love one another, because love is from God; everyone who loves is born of God and knows God. Whoever does not love does not know God, for God is love. God's love was revealed among us in this way: God sent his only Son into the world so that we might live through him. In this is love, not that we loved God but that he loved us and sent his Son to be the atoning sacrifice for our sins. Beloved, since God loved us so much, we also ought to love one another. No one has ever seen God; if we love one another, God lives in us, and his love is perfected in us.

By this we know that we abide in him and he in us, because he has given us of his Spirit. And we have seen and do testify that the Father has sent his Son as the Saviour of the world. God abides in those who confess that Jesus is the Son of God, and they abide in God. So we have known and believe the love that God has for us. God is love, and those who abide in love abide in God, and God abides in them.

Love and gratitude

Luke 7. 36-38

One of the Pharisees asked Jesus to eat with him, and he went into the Pharisee's house and took his place at the table. And a woman in the city, who was a sinner, having learned that he was eating in the Pharisee's house, brought an alabaster jar of ointment. She stood behind him at his feet, weeping, and began to bathe his feet with her tears and to dry them with her hair. Then she continued kissing his feet and anointing them with the ointment.

iii. LLAWENYDD

Llawenhau yn Nuw

Philipiaid 4. 4-9

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch. Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn. Y mae'r Arglwydd yn agos. Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnerefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.

Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyflawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn. Y pethau yr ydych wedi eu dysgu a'u derbyn, eu clywed a'u gweled, ynof fi, gnewch y rhain; a bydd Duw'r tangnerefedd gyda chwi.

Gwledd briodas

Ioan 2. 1-11

Y trydydd dydd yr oedd priodas yng Nghana Galilea, ac yr oedd mam Iesu yno. Gwahoddwyd Iesu hefyd, a'i ddisgyblion, i'r briodas. Pallodd y gwin, ac meddai mam Iesu wrtho ef, "Nid oes ganddynt win." Dywedodd Iesu wrthi hi, "Wraig, beth sydd a fynni di â mi? Nid yw fawr i wedi dod eto." Dywedodd ei fam wrth y gwasanaethyddion, "Gnewch beth bynnag a ddywed wrthych." Yr oedd yno chwech o lestri carreg i ddal dŵr, wedi eu gosod ar gyfer defod glanhad yr Iddewon, a phob un yn dal ugain neu ddeg ar hugain o alwyni. Dywedodd Iesu wrthynt, "Llanwch y llestri â dŵr," a llanwasant hwy hyd yr ymwl. Yna meddai wrhynt, "Yn awr tynnwch beth allan ac ewch ag ef i lywydd y wledd." A gwnaethant felly. Profodd llywydd y wledd y dŵr, a oedd bellach yn win, heb wybod o ble'r oedd wedi dod, er bod y gwasanaethyddion a fu'n tynnu'r dŵr yn gwybod. Yna galwodd llywydd y wledd

iii. JOY

Joyful in God

Philippians 4. 4-9

Rejoice in the Lord always; again I will say, Rejoice. Let your gentleness be known to everyone. The Lord is near. Do not worry about anything, but in everything by prayer and supplication with thanksgiving let your requests be made known to God. And the peace of God, which surpasses all understanding, will guard your hearts and your minds in Christ Jesus.

Finally, beloved, whatever is true, whatever is honourable, whatever is just, whatever is pure, whatever is pleasing, whatever is commendable, if there is any excellence and if there is anything worthy of praise, think about these things. Keep on doing the things that you have learned and received and heard and seen in me, and the God of peace will be with you.

A wedding feast

John 2. 1-11

On the third day there was a wedding in Cana of Galilee, and the mother of Jesus was there. Jesus and his disciples had also been invited to the wedding. When the wine gave out, the mother of Jesus said to him, 'They have no wine.' And Jesus said to her, 'Woman, what concern is that to you and to me? My hour has not yet come.' His mother said to the servants, 'Do whatever he tells you.' Now standing there were six stone water-jars for the Jewish rites of purification, each holding twenty or thirty gallons. Jesus said to them, 'Fill the jars with water.' And they filled them up to the brim. He said to them, 'Now draw some out, and take it to the chief steward.' So they took it. When the steward tasted the water that had become wine, and did not know where it came from (though the servants who had drawn the water knew), the steward called the bridegroom and said to him, 'Everyone serves the good wine first, and then the inferior wine after the guests have become drunk. But you have kept the good wine until now.'

99

ar y priodfab ac meddai wrtho, "Bydd pawb yn rhoi'r gwin da yn gyntaf, ac yna, pan fydd pobl wedi meddwi, y gwin salach; ond yr wyt ti wedi cadw'r gwin da hyd yn awr." Gwnaeth Iesu hyn, y cyntaf o'i arwyddion, yng Nghana Galilea; amlygodd felly ei ogoniant, a chredodd ei ddisgyblion ynddo.

iv. CWMNÍAETH

Rhannu cariad

Rhufeiniaid 12. 4-13

Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac os cynghori, i gynghori. Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd.

Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch. Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd. Llawenhewch mewn gobaith. Safwch yn gadarn dan orthrymder. Daliwch ati i weddio. Cyfrannwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch.

Jesus did this, the first of his signs, in Cana of Galilee, and revealed his glory; and his disciples believed in him.

iv. **COMPANIONSHIP**

Sharing in love

Romans 12. 4-13

For as in one body we have many members, and not all the members have the same function, so we, who are many, are one body in Christ, and individually we are members one of another. We have gifts that differ according to the grace given to us: Prophecy, in proportion to faith; ministry, in ministering; the teacher, in teaching; the exhorter, in exhortation; the giver, in generosity; the leader, in diligence; the compassionate, in cheerfulness.

Let love be genuine; hate what is evil, hold fast to what is good; love one another with mutual affection; outdo one another in showing honour. Do not lag in zeal, be ardent in spirit, serve the Lord. Rejoice in hope, be patient in suffering, persevere in prayer. Contribute to the needs of the saints; extend hospitality to strangers.

Rhwymyn tangnefedd

Effesiaid 4. 1-6

Yr wyf fi, felly, sy'n garcharor er mwyn yr Arglwydd,
yn eich annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch.
Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth,
ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad.
Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y
mae'r Ysbryd yn ei roi. Un corff sydd, ac un Ysbryd,
yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich
galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw
a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy
bawb, ac ym mhawb.

Cartref newydd

Marc 10. 6-9, 13-16

"Ond o ddechreuaid y greadigaeth, yn wryw a benyw y
gwnaeth Duw hwy. Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei
dad a'i fam ac yn glynu wrth ei wraig, a bydd y ddau yn
un cnawd. Gan hynny nid dau mohonynt mwyach, ond
un cnawd. Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, peidied neb
ei wahanu."

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy.
Ceryddodd y disgylion hwy, ond pan welodd Iesu hyn
aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant
ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel
hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n
dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas
Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi." A
chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi
ei ddwylo arnynt.

Y mae dau yn well nag un

Pregethwr 4. 9-12

Y mae dau yn well nag un, oherwydd y maent yn cael
tâl da am eu llafur; os bydd y naill yn syrthio, y mae'r
llall yn gallu ei godi, ond gwaë'r un sydd ar ei ben ei
hun; pan yw'n syrthio, nid oes ganddo neb i'w godi.
Hefyd os bydd dau yn gorwedd gyda'i gilydd, y mae'r
naill yn cadw'r llall yn gynnes; ond sut y gall un gadw'n

The bond of peace

Ephesians 4. 1-6

I therefore, the prisoner in the Lord, beg you to lead a life worthy of the calling to which you have been called, with all humility and gentleness, with patience, bearing with one another in love, making every effort to maintain the unity of the Spirit in the bond of peace. There is one body and one Spirit, just as you were called to the one hope of your calling, one Lord, one faith, one baptism, one God and Father of all, who is above all and through all and in all.

The new home

Mark 10. 6-9, 13-16

'But from the beginning of creation, "God made them male and female." "For this reason a man shall leave his father and mother and be joined to his wife, and the two shall become one flesh." So they are no longer two, but one flesh. Therefore what God has joined together, let no one separate.'

People were bringing little children to him in order that he might touch them; and the disciples spoke sternly to them. But when Jesus saw this, he was indignant and said to them, 'Let the little children come to me; do not stop them; for it is to such as these that the kingdom of God belongs. Truly I tell you, whoever does not receive the kingdom of God as a little child will never enter it.' And he took them up in his arms, laid his hands on them, and blessed them.

Two have a good reward

Ecclesiastes 4. 9-12

Two are better than one, because they have a good reward for their toil. For if they fall, one will lift up the other; but woe to one who is alone and falls and does not have another to help. Again, if two lie together, they keep warm; but how can one keep warm alone? And though one might prevail against another, two will withstand one. A threefold cord is not quickly broken.

gynnes ar ei ben ei hun? Er y gellir trechu un, y mae dau yn gallu gwrthsefyll. Ni ellir torri rhaff deircainc ar frys.

v. **DUW**

Ar ddelw Duw

Genesis 1. 26-29, 31

Dyweddodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwylt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear." Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy. Bendithiodd Duw hwy a dweud, "Byddwch ffrwython ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear." A dywedodd Duw, "Yr wyf yn rhoi i chwi bob llysieuyn sy'n dwyn had ar wyneb y ddaear, a phob coeden â had yn ei ffrwyth; byddant yn fwyd i chwi. Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn. A bu hwyr a bu bore, y chweched dydd.

Cariad sy'n cynyddu

Philipiaid 1. 9-11

Dyma fy ngweddi, ar i'ch cariad gynyddu fwyfwy eto mewn gwybodaeth a phob dirnadaeth, er mwyn ichwi allu cymeradwyo'r hyn sy'n rhagori, a bod yn ddidwyll a didramgydd erbyn Dydd Crist, yn gyflawn o ffrwyth y cyfiawnder sy'n dod trwy Iesu Crist, er gogoniant a mawl i Dduw.

v. **GOD**

Made in God's image

Genesis 1. 26-29, 31

Then God said, ‘Let us make humankind in our image, according to our likeness; and let them have dominion over the fish of the sea, and over the birds of the air, and over the cattle, and over all the wild animals of the earth, and over every creeping thing that creeps upon the earth.’ So God created humankind in his image, in the image of God he created them; male and female he created them. God blessed them, and God said to them, ‘Be fruitful and multiply, and fill the earth and subdue it; and have dominion over the fish of the sea and over the birds of the air and over every living thing that moves upon the earth.’ God said, ‘See, I have given you every plant yielding seed that is upon the face of all the earth, and every tree with seed in its fruit; you shall have them for food. God saw everything that he had made, and indeed, it was very good. And there was evening and there was morning, the sixth day.

Love that overflows

Philippians 1. 9-11

And this is my prayer, that your love may overflow more and more with knowledge and full insight to help you to determine what is best, so that on the day of Christ you may be pure and blameless, having produced the harvest of righteousness that comes through Jesus Christ for the glory and praise of God.

Myfi eu Duw, hwythau'n bobl i mi

Jeremeia 31. 31-34

"Y mae'r dyddiau'n dod," medd yr Arglwydd, "y gwnaf gyfamod newydd â thŷ Israel ac â thŷ Jwda. Ni fydd yn debyg i'r cyfamod a wneuthum â'u hynafiaid, y dydd y gafaelais yn eu llaw i'w harwain allan o wlad yr Aifft. Torasant y cyfamod hwnnw, er mai myfi oedd yn arglwydd arnynt," medd yr Arglwydd. "Ond dyma'r cyfamod a wnaf â thŷ Israel ar ôl y dyddiau hynny," medd yr Arglwydd; "rhof fy nghyfraith o'u mewn, ysgrifennaf hi ar eu calon, a byddaf fi'n Dduw iddynt a hwythau'n bobl i mi. Ac ni fyddant mwyach yn dysgu bob un ei gymydog a phob un ei berthynas, gan ddweud, 'Adnebydd yr Arglwydd'; oblegid byddant i gyd yn fadnabod, o'r lleiaf hyd y mwyaf ohonynt," medd yr Arglwydd, "oherwydd maddeuaf iddynt eu drygioni, ac ni chofiaf eu pechodau byth mwy."

Dwyn ffrwyth

Ioan 15. 1-8

Dyweddodd Iesu "Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr. Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth, er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Yr ydych chwi eisoes yn lân trwy'r gair yr wyf wedi ei lefaru wrthych. Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chwi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim. Os na fydd rhywun yn aros ynof fi, caiff ei daflu i ffwrdd fel y gangen ddiffrrwyth, ac fe wywa; dyma'r canghennau a gesglir, i'w taflu i'r tân a'u llosgi. Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau ynoch chwi, gofynnwch am beth a fynnwch, ac fe'i rhoddir ichwi. Dyma sut y gogoneddir fy Nhad: trwy i chwi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi.

I their God, they my people

Jeremiah 31. 31-34

The days are surely coming, says the Lord, when I will make a new covenant with the house of Israel and the house of Judah. It will not be like the covenant that I made with their ancestors when I took them by the hand to bring them out of the land of Egypt - a covenant that they broke, though I was their husband, says the Lord. But this is the covenant that I will make with the house of Israel after those days, says the Lord: I will put my law within them, and I will write it on their hearts; and I will be their God, and they shall be my people. No longer shall they teach one another, or say to each other, 'Know the Lord, for they shall all know me, from the least of them to the greatest, says the Lord; for I will forgive their iniquity, and remember their sin no more.

Bearing fruit

John 15. 1-8

Jesus said 'I am the true vine, and my Father is the vine-grower. He removes every branch in me that bears no fruit. Every branch that bears fruit he prunes to make it bear more fruit. You have already been cleansed by the word that I have spoken to you. Abide in me as I abide in you. Just as the branch cannot bear fruit by itself unless it abides in the vine, neither can you unless you abide in me. I am the vine, you are the branches. Those who abide in me and I in them bear much fruit, because apart from me you can do nothing. Whoever does not abide in me is thrown away like a branch and withers; such branches are gathered, thrown into the fire, and burned. If you abide in me, and my words abide in you, ask for whatever you wish, and it will be done for you. My Father is glorified by this, that you bear much fruit and become my disciples.'

vi. **FFYDD**

Amser i bob peth

Pregethwr 3. 1-8

Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:
amser i eni, ac amser i farw,
amser i blannu, ac amser i
ddiwreiddio'r hyn a blannwyd;
amser i ladd, ac amser i iacháu,
amser i dynnu i lawr, ac amser i adeiladu;
amser i wylo, ac amser i chwerthin,
amser i alaru, ac amser i ddawnsio;
amser i daflu cerrig, ac amser i'w casglu,
amser i gofleidio, ac amser i ymatal;
amser i geisio, ac amser i golli,
amser i gadw, ac amser i daflu ymaith;
amser i rwygo, ac amser i drwsio,
amser i dewi, ac amser i siarad;
amser i garu, ac amser i gasáu,
amser i ryfel, ac amser i heddwch.

Caru mewn gweithred a gwirionedd

1 Ioan 3. 18-24

Fy mhlant, gadewch inni garu, nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd. Dyma sut y cawn wybod ein bod o'r gwirionedd, a sicrhau ein calonnau yn ei wydd ef pryd bynnag y bydd ein calon yn ein condemnio; oherwydd y mae Duw yn fwy na'n calon, ac y mae'n gwybod pob peth. Gyfeillion annwyl, os nad yw'n calon yn ein condemnio, y mae gennym hyder gerbron Duw, ac yr ydym yn derbyn ganddo ef bob dim yr ydym yn gofyn amdano, am ein bod yn cadw ei orchymnon ac yn gwneud y pethau sydd wrth ei fod. Dyma ei orchymyn: ein bod i gredu yn enw ei Fab ef, Iesu Grist; a charu'n gilydd, yn union fel y rhoddodd ef orchymyn inni. Y mae'r sawl sy'n cadw ei orchymnon ef yn aros ynddo ef, ac ef ynddo yntau. Dyma sut yr ydym yn gwybod ei fod ef yn aros ynom ni: trwy'r Ysbryd a roddodd ef inni.

vi. **FAITH**

A time for everything

Ecclesiastes 3. 1-8

For everything there is a season, and a time for every matter under heaven:
a time to be born, and a time to die; a time to plant,
 and a time to pluck up what is planted;
a time to kill, and a time to heal; a time to break down,
 and a time to build up;
a time to weep, and a time to laugh; a time to mourn,
 and a time to dance;
a time to throw away stones, and a time to gather stones together;
a time to embrace, and a time to refrain from embracing;
a time to seek, and a time to lose;
a time to keep, and a time to throw away;
a time to tear, and a time to sew;
a time to keep silence, and a time to speak;
a time to love, and a time to hate;
a time for war, and a time for peace.

Love in truth and action

1 John 3. 18-24

Little children, let us love, not in word or speech, but in truth and action. And by this we will know that we are from the truth and will reassure our hearts before him whenever our hearts condemn us; for God is greater than our hearts, and he knows everything. Beloved, if our hearts do not condemn us, we have boldness before God; and we receive from him whatever we ask, because we obey his commandments and do what pleases him.

And this is his commandment, that we should believe in the name of his Son Jesus Christ and love one another, just as he has commanded us. All who obey his commandments abide in him, and he abides in them. And by this we know that he abides in us, by the Spirit that he has given us.

Gwledd Briodas yr Oen

Datguddiad 19. 6-19

A chlywais lais fel sŵn tyrfa fawr a sŵn llawer o
ddyfroedd a sŵn taranau mawr yn dweud:
"Halelwia!
Oherwydd y mae'r Arglwydd ein Duw, yr Hollalluog,
wedi dechrau teyrnas.
Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo'r gogoniant,
oherwydd daeth dydd priodas yr Oen, ac ymbaratodd ei
briodferch ef.
Rhoddwyd iddi hi i'w wisgo liain main disgrair a glân,
oherwydd gweithredoedd cyflawn y saint yw'r lliain
main."

Dyweddodd yr angel wrthyf, "Ysgrifenna: 'Gwyn eu byd
y rhai sydd wedi eu gwahodd i wledd briodas yr Oen.' "
Dyweddodd wrthyf hefyd, "Dyma wir eiriau Duw."
Syrthiais wrth ei draed i'w addoli, ond meddai wrthyf,
"Paid! Cydwas â thi wyf fi, ac â'th gymrodyr sy'n glynu
wrth dystiolaeth Iesu; addola Dduw. Oherwydd
tystiolaeth Iesu sy'n ysbrydoli proffwydoliaeth."

Gwelais y nef wedi ei hagor, ac wele geffyl gwyn; enw ei
farchog oedd Ffyddlon a Gwir, oherwydd mewn
cyflawnder y mae ef yn barnu ac yn rhyfela. Yr oedd ei
lygaid fel fflam dâñ, ac ar ei ben yr oedd diademau
lawer. Yn ysgrifenedig arno yr oedd enw na wyddai neb
ond ef ei hun. Yr oedd y fantell amdano wedi ei throchi
mewn gwaed, ac fe'i galwyd wrth yr enw Gair Duw. Yn
ei ganlyn ar geffylau gwynion yr oedd byddinoedd y nef,
wedi eu gwisgo â lliain main disgrleirwyn. O'i enau yr
oedd cleddyf llym yn dod allan, iddo daro'r
cenhedloedd ag ef; a bydd ef yn eu llywodraethu â
gwialen haearn, ac yn sathru gwinwryf llid digofaint
Duw, yr Hollalluog. Yn ysgrifenedig ar ei fantell ac ar ei
glun y mae enw: "Brenin brenhinoedd, ac Arglwydd
arglwyddi."

Yna gwelais angel yn sefyll yn yr haul, a gwaeddodd â
llais uchel wrth yr holl adar oedd yn hedfan yng nghanol
y nef: "Dewch, ymgasglwch i wledd fawr Duw; cewch
fwyta cnawd brenhinoedd, cnawd cadfridogion, cnawd y
cryfion, cnawd ceffylau a'u marchogion, a chnawd

The celebratory feast

Revelation 19. 6-19

Then I heard what seemed to be the voice of a great multitude,
like the sound of many waters and like the sound of
mighty thunder-peals, crying out,
'Hallelujah!

For the Lord our God the Almighty reigns.
Let us rejoice and exult and give him the glory,
for the marriage of the Lamb has come,
and his bride has made herself ready;
to her it has been granted to be clothed with fine linen,
bright and pure'—

for the fine linen is the righteous deeds of the saints.

And the angel said to me, 'Write this: Blessed are those
who are invited to the marriage supper of the Lamb.'

And he said to me, 'These are true words of God.'

Then I fell down at his feet to worship him, but he said
to me, 'You must not do that! I am a fellow-servant
with you and your comrades who hold the testimony of
Jesus. Worship God! For the testimony of Jesus is the
spirit of prophecy.'

Then I saw heaven opened, and there was a white
horse! Its rider is called Faithful and True, and in
righteousness he judges and makes war. His eyes are
like a flame of fire, and on his head are many diadems;
and he has a name inscribed that no one knows but
himself. He is clothed in a robe dipped in blood, and his
name is called The Word of God. And the armies of
heaven, wearing fine linen, white and pure, were
following him on white horses. From his mouth comes a
sharp sword with which to strike down the nations, and
he will rule them with a rod of iron; he will tread the
wine press of the fury of the wrath of God the Almighty.
On his robe and on his thigh he has a name inscribed,
'King of kings and Lord of lords'.

Then I saw an angel standing in the sun, and with a
loud voice he called to all the birds that fly in mid-
heaven, 'Come, gather for the great supper of God, to
eat the flesh of kings, the flesh of captains, the flesh of
the mighty, the flesh of horses and their riders - flesh of

pawb, yn rhyddion ac yn gaethion, yn fach ac yn fawr." Gwelais y bwystfil, a brenhinoedd y ddaear a'u byddinoedd, wedi ymgasglu i ryfela yn erbyn marchog y ceffyl a'i fyddin.

Y Gwynfydau

Mathew 5. 2-12a

Dechreuodd Iesu eu hannerch a'u dysgu fel hyn:
"Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbyrd,
oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.
Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu
cysuro.
Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy
etifeddu'r ddaear.
Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am
gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.
Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy
dderbyn trugaredd.
Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy
weld Duw.
Gwyn eu byd y tangnafeddwyr, oherwydd cânt hwy eu
galw'n blant i Dduw.
Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder,
oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.
Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo
a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog
yn eich erbyn, o'm hachos i. Llawenhewch a
gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn
y nefoedd."

all, both free and slave, both small and great.' Then I saw the beast and the kings of the earth with their armies gathered to make war against the rider on the horse and against his army.

The true blessed

Matthew 5. 2-12a

Then Jesus began to speak, and taught them, saying:
‘Blessed are the poor in spirit, for theirs is the kingdom of heaven.

‘Blessed are those who mourn, for they will be comforted.

‘Blessed are the meek, for they will inherit the earth.

‘Blessed are those who hunger and thirst for righteousness, for they will be filled.

‘Blessed are the merciful, for they will receive mercy.

‘Blessed are the pure in heart, for they will see God.

‘Blessed are the peacemakers, for they will be called children of God.

‘Blessed are those who are persecuted for righteousness sake’, for theirs is the kingdom of heaven.

‘Blessed are you when people revile you and persecute you and utter all kinds of evil against you falsely on my account. Rejoice and be glad, for your reward is great in heaven.

Clywed a gwneud

Mathew 7. 21, 24-27

"Nid pawb sy'n dweud wrthyf, 'Arglwydd, Arglwydd', fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewylllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

"Pob un felly sy'n gwrando ar y geiriau hyn o'r eiddof ac yn eu gwneud, fe'i cyffelybir i un call, a adeiladodd ei dŷ ar y graig. Disgynnodd y glaw a daeth y llifogydd, a chwythodd y gwyntoedd a tharo yn erbyn y tŷ hwnnw, ond ni syrthiodd, am ei fod wedi ei sylfaenu ar y graig. A phob un sy'n gwrando ar y geiriau hyn o'r eiddof a heb eu gwneud, fe'i cyffelybir i un ffôl, a adeiladodd ei dŷ ar y tywod. A disgynnodd y glaw a daeth y llifogydd, a chwythodd y gwyntoedd a tharo yn erbyn y tŷ hwnnw, ac fe syrthiodd, a dirfawr oedd ei gwympr."

vii. TEULU

Pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear

Effesiaid 3. 14-19

Oherwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau gerbron y Tad, yr hwn y mae pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear yn cymryd ei enw oddi wrtho, ac yn gweddio ar iddo ganiatáu i chwi, yn ôl cyfoeth ei ogoniant, gryfder a nerth mewnol trwy'r Ysbryd, ac ar i Grist breswylio yn eich calonnau drwy ffydd. Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfneder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnader, hyd at holl gyflawnader Duw.

Hearing and doing

Matthew 7. 21, 24-27

'Not everyone who says to me, "Lord, Lord", will enter the kingdom of heaven, but only one who does the will of my Father in heaven.

'Everyone then who hears these words of mine and acts on them will be like a wise man who built his house on rock. The rain fell, the floods came, and the winds blew and beat on that house, but it did not fall, because it had been founded on rock. And everyone who hears these words of mine and does not act on them will be like a foolish man who built his house on sand. The rain fell, and the floods came, and the winds blew and beat against that house, and it fell - and great was its fall!'

vi. FAMILY

Every family in Heaven and on earth

Ephesians 3. 14-19

For this reason I bow my knees before the Father, from whom every family in heaven and on earth takes its name. I pray that, according to the riches of his glory, he may grant that you may be strengthened in your inner being with power through his Spirit, and that Christ may dwell in your hearts through faith, as you are being rooted and grounded in love. I pray that you may have the power to comprehend, with all the saints, what is the breadth and length and height and depth, and to know the love of Christ that surpasses knowledge, so that you may be filled with all the fullness of God.

Yr hyn a gysylltodd Duw Marc 10. 6-9 (10-12) 13-16

Ond o ddechreuaad y greadigaeth, yn wryw a benyw y gwnaeth Duw hwy. Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn glynu wrth ei wraig, a bydd y ddau yn un cnawd. Gan hynny nid dau mohonynt mwyach, ond un cnawd. Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, peidied neb ei wahanu."

(Wedi mynd yn ôl i'r tŷ, holodd ei ddisgyblion ef yngylch hyn. Ac meddai wrthynt, "Pwy bynnag sy'n ysgaru ei wraig ac yn priodi un arall, y mae'n godinebu yn ei herbyn hi; ac os bydd iddi hithau ysgaru ei gŵr a phriodi un arall, y mae hi'n godinebu.")

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi." A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.

Teuluoedd y ddaear

Genesis 12. 1-3

Dywedodd yr Arglwydd wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti. Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di; mawrygaf dy enw a byddi'n fendith. Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio, a mellithiaf y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear."

What God has joined together

Mark 10. 6-9 (10-12) 13-16

But from the beginning of creation, “God made them male and female.” “For this reason a man shall leave his father and mother and be joined to his wife, and the two shall become one flesh.” So they are no longer two, but one flesh. Therefore what God has joined together, let no one separate.’

(Then in the house the disciples asked him again about this matter. He said to them, ‘Whoever divorces his wife and marries another commits adultery against her; and if she divorces her husband and marries another, she commits adultery.’)

People were bringing little children to him in order that he might touch them; and the disciples spoke sternly to them. But when Jesus saw this, he was indignant and said to them, ‘Let the little children come to me; do not stop them; for it is to such as these that the kingdom of God belongs. Truly I tell you, whoever does not receive the kingdom of God as a little child will never enter it.’ And he took them up in his arms, laid his hands on them, and blessed them.

The families of the earth

Genesis 12. 1-3

Now the Lord said to Abram, ‘Go from your country and your kindred and your father’s house to the land that I will show you. I will make of you a great nation, and I will bless you, and make your name great, so that you will be a blessing. I will bless those who bless you, and the one who curses you I will curse; and in you all the families of the earth shall be blessed.’

Atodiad 4b

SALMAU

Salm 37. 3-5

Ymddiried yn yr Arglwydd a / gwna ddai/oni :
iti gael byw yn y / wlad • mewn cym/deithas • ddi/ogel.
Ymhyfryda / yn yr / Arglwydd :
a rhydd / iti • ddei/syfiad • dy / galon.
Rho dy / ffyrdd i'r / Arglwydd :
ymddiried / ynddo • ac / fe weith/reda.

Salm 67

Siant sengl

Bydded Duw yn drugarog wrthym / a'n ben/dithio :
bydded / llewyrch • ei / wyneb / arnom,
Er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus / ar y / ddaear :
a'i waredigaeth y/mysg yr / holl gen/hedloedd.
Bydded i'r bobloedd dy / foli • O / Dduw :
bydded i'r holl / bobloedd • dy / foli / di.
Bydded i'r cenhedloedd lawenhau a / gorfo/leddu :
oherwydd yr wyt ti'n barnu pobloedd yn gywir •
ac yn arwain cen/hedloedd / ar y / ddaear.
Bydded i'r bobloedd dy / foli • O / Dduw :
bydded i'r holl / bobloedd • dy / foli / di.
Rhœs y / ddaear • ei / chnwd :
Duw, ein / Duw ni / a'n ben/dithiodd.
Bendithiodd / Duw – / ni :
bydded holl gyrrau'r / ddaear / yn ei / ofni.

Appendix 4b

Psalms

Psalm 37. 3-5

Trust in the Lord and be / doing / good :
dwell in the land / and be / nourished with / truth.
Let your delight be / in the / Lord :
and he will / give you your / heart's de/sire.
Commit your way to the Lord and put your / trust in / him :
and / he will / bring it to / pass.

Psalm 67

God be gracious to / us and / bless us :
and make his / face to / shine up/on us,
That your way may be / known upon / earth :
your saving / power a/mong all / nations.
Let the peoples / praise you, O / God :
let / all the / peoples / praise you.
O let the nations re/joyce and be / glad :
for you will judge the peoples righteously
and govern the / nations / upon / earth.
Let the peoples / praise you, O / God :
let / all the / peoples / praise you.
Then shall the earth bring / forth her / increase :
and God, our / own / God, will / bless us.
God / will / bless us :
and all the / ends of the / earth shall / fear him.

Psalm 121

Codaf fy llygaid / tua'r • my/nyddoedd :
o / ble y • daw / cymorth • i / mi?
Daw fy nghymorth oddi / wrth yr / Arglwydd :
cre/awdwrr / nefoedd • a / daear.
Nid yw'n gadael i'th / droed – / lithro :
ac / nid • yw dy / geidwad • yn / cysgu.
Nid yw / ceidwad / Israel :
yn / cysgu / nac yn / huno.
Yr Arglwydd / yw dy / geidwad :
yr Arglwydd yw dy / gysgod / ar • dy dde/heulaw;
Ni fydd yr haul yn dy daro / yn y / dydd :
na'r / lleuad / yn y / nos.
Bydd yr Arglwydd yn dy gadw / rhag pob / drwg :
bydd yn / cadw / dy – / einioes.
Bydd yr Arglwydd yn gwyllo dy / fynd a'th / ddod :
yn / awr a / hyd – / byth.

— | — | —

Psalm 121

I lift up my eyes / to the / hills :
from / where is my / help to / come?
My help comes / from the / Lord :
the / maker of / heaven and / earth.
He will not suffer your / foot to / stumble :
he who watches / over you / will not / sleep.
Behold, he who keeps watch / over / Israel :
shall / neither / slumber nor / sleep.
The Lord himself / watches / over you :
the Lord is your shade / at your / right / hand,
So that the sun shall not / strike you by / day :
nei/ther the / moon by / night.
The Lord shall keep you / from all / evil :
it is / he who shall / keep your / soul.
The Lord shall keep watch over your going out
and your / coming / in :
from this time / forth for / ever/more.

Atodiad 5

GWEDDIAU / DATGANIADAU ERAILL DROS Y MODRWYAU

- i. Bydded y modrwyau a wisgwch yn symbol o gariad a ffyddlondeb diderfyn ac yn arwydd o'r bywyd a rannwch a'ch parch at eich gilydd.
- ii. Parhaed y modrwyau hyn yr ydych wedi eu cyfnewisid yn arwydd o gariad diderfyn a'ch atgoffa mai un cnawd ydych, wedi eich rhwymo ynghyd mewn cyfamod sanctaidd lle na dderfydd cariad, ac nad oes ffiniau i bresenoldeb Duw.
- iii. Pan briodwyd chwi,
fe gyfnewidiwyd yn arwydd o'ch cariad
a'ch ffyddlondeb i'ch gilydd y modrwyau hyn
(y fodrwy hon) yr ydych yn awr yn eu /ei gwisgo.
Bydded iddynt / iddi barhau yn arwydd
o'r addewidion a wnaethoch
ac o'r briodas y gofynasoch i Dduw ei bendithio.
Amen.

Appendix 5

ALTERNATIVE PRAYERS / DECLARATIONS OVER THE RINGS

- i. May the rings you wear be a symbol of unending love and faithfulness, a sign of your shared lives and the honour you have for each other.
- ii. May these rings you have exchanged continue to be a sign of unending love, and remind you that you are one flesh, bound together in a holy covenant, where love has no end, and God's presence has no bounds.
- iii. When you were married,
these rings (this ring) you now wear
were (was) exchanged as a sign of your love and
faithfulness to one another.
May they (it) continue to be a sign of the promises you
have made, and the marriage you have asked God to
bless. **Amen.**

Atodiad 6

BENDITHIO'R DDEUDDYN

- i. Pan fyddwch yn effro a phan fyddwch yn cysgu,
pan fyddwch yn gweithio a phan fyddwch yn gorffwyso,
pan fyddwch yn cytuno a phan fyddwch yn methu
â chytuno,
pan fyddwch ynghyd a phan fyddwch ar wahân,
pan fyddwch gartref a phan fyddwch ymhell i ffwrdd,
amgylchyned Crist chwi a'ch uno yn ei gariad.

A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras
a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**

- ii. Goleuer eich cartref â goleuni Duw, fel, pan fo
tywyllwch, y llewyrcha'i gariad a chwalu cysgodion
y nos.

Bydded drysau eich calonnau bob amser yn agored
i roi croeso a chartref i Grist.

Cynheser eich cartref gan fflam dyner yr Ysbryd fel y
bydd eich cariad at eich gilydd bob amser ynghyn ac
yn llawn angerdd.

A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras
a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**

- iii. Pan fyddo eich tŷ'n llawn chwerthin a phan fyddo'n
dawel a thrist, byddwch yn ymwybodol bob amser o
bresenoldeb yr Arglwydd sy'n ymgartrefu gyda chwi.

A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras
a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**

Appendix 6

PRAYERS OF BLESSINGS OVER THE COUPLE

- i. When you wake and when you sleep,
when you work and when you rest,
when you agree and when you fail to agree,
when you are together and when you are apart,
when you are at home and when you are far away,
may Christ surround you and unite you in his love.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

- ii. May your home be lit with the love of God,
so that when it is dark his love will glow and dispel the shadows of the night.

May the doors of your hearts always be open,
so that Christ is welcomed and given a home.

May your home be warmed by the gentle flame of the Spirit, so that your love for each other will always be alive and full of passion.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

- iii. When your house is filled with laughter or when it is sad and low, may you always be aware of the Lord's presence who comes to make his home with you.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

- iv. Bydded i'r cariad sydd gennych at eich gilydd gyffwrdd â phawb a ddaw drwy ddrws eich cartref.
Bydded i bawb o'ch teulu ddod o hyd i fan lle y gallant ddarganfod sut i garu a bod yn rhydd i fyw fel y dymuna Duw.
Bydded i bawb a fydd yn eistedd wrth eich bwrdd dderbyn maeth cariad Crist sydd yn croesawu pawb sydd mewn angen.
A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**
- v. Bendithied Duw Dad eich cartref.
Llanwed Crist eich calonnau â gorlif o gariad.
Lapied yr Ysbryd chwi yn ei gariad a'ch gwau yn un.
A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**
- vi. Cadwch eich cariad yn bur i'ch gilydd, ond na chaeed allan byth yr anghenus.
Trysorwch eich cariad at eich gilydd; a'i gadw i losgi yn amgylchiadau cyffredin bywyd.
Tyfed ac aeddfeded eich cariad at eich gilydd;
ac nac anghofiwch byth sylfeini eich bywyd ynghyd.
A bendithied Duw chwi a'ch cadw, eich llenwi â'i ras a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen.**

iv. May all who pass through the doors of your home be touched by the love that you have for one another.

May all whom you call family find a place where they discover how to love and have the freedom to live as God desires.

May all who sit at your table be nourished by the love of Christ who welcomes all who are in need.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

v. May God the Father bring his blessing to your home.

May Christ fill your hearts with love that overflows.

May the Spirit enfold you in his love and knit you together as one.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

vi. May your love for each other be exclusive; but never exclude those who are in need.

May your love for each other be precious; but never fail to burn in the ordinary situations of life.

May your love for each other grow and mature; but never forget the foundations of your life together.

And may God bless you and keep you, fill you with his grace, and bring you to the joy of everlasting life. **Amen.**

Atodiad 7

YMBILIAU

Fel rheol, bydd y gweddiâu'n cynnwys y themâu a ganlyn:

- *Diolchgarwch*
- *Cynnydd ysbrydol*
- *Ffyddlondeb, llawenydd, cariad, maddeugarwch ac iachâd*
- *Plant, aelodau eraill o'r teulu a chyfeillion.*

Dylid cadw distawrwydd ar ôl pob deisyfiad.

Gellir defnyddio ymatebion priodol, er enghraifft:

**Arglywydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.**

Arglywydd, clyw ni.

Arglywydd, yn rasol clyw ni.

Gweddiwn arnat ti, O Arglywydd.

Arglywydd, trugarha.

*Mae'r weddi'n cloi â cholect addas a ddywedir gan yr offeiriad neu
â'r canlynol,
naill ai:*

**Dad trugarog,
derbyn y gweddiâu hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwareddwr Iesu Grist. Amen.**

neu:

**Yn eu holl ddyfodol ynghyd bydded iddynt fwynhau
bywydau ei gilydd ac aeddfedu yn y cariad a rannant.
Gofynnwn y pethau hyn trwy Grist ein Harglywydd.
Amen.**

Appendix 7

PRAYERS OF INTERCESSIONS

The prayers usually include the following themes:

- *Thanksgiving*
- *Spiritual growth*
- *Faithfulness, joy, love, forgiveness and healing*
- *Children, other family members and friends.*

Silence should be kept after each bidding.

Appropriate responses may be used, for example:

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

Lord, hear us.
Lord, graciously hear us.

We pray to you, O Lord.
Lord, have mercy.

The prayer ends with a suitable collect said by the minister or the following, either:

Merciful Father,
accept these prayers
for the sake of your Son,
our Saviour Jesus Christ. Amen.

or:

In all their future together may they enjoy each other's lives and grow through the love they share.

These things we ask through Christ our Lord. **Amen.**

- i. Dduw ffyddlon,
sanctaidd a thragwyddol, ffynhonnell bywyd a tharddle
cariad, rhoddown iti ddiolch a moliant am
arwain *E* ac *E* i'r diwrnod hwn, a gweddiwn drostynt.
Arglwydd bywyd a chariad:
gwrando ein gweddi.

Bydded eu priodas yn fwrlwm o fywyd gydol eu hoes,
cyfoethoga hi â'th bresenoldeb a'i chryfhau â'th ras;
bydded iddynt gysuro ei gilydd a nerthu ei gilydd
mewn ffyddlondeb ac ymddiriedaeth.

Arglwydd bywyd a chariad:
gwrando ein gweddi.

Deued lletygarwch eu cartref â lluniaeth a llawenydd i
bawb o'u cwmpas; gorlifed eu cariad at gymdogion
anghenus a chofleidio'r trallodus.

Arglwydd bywyd a chariad:
gwrando ein gweddi.

Bydded iddynt ddirnad yn dy air drefn ac amcan i'w
bywydau; a bydded i nerth dy Ysbryd Glân eu tywys
mewn gwirionedd a'u hamddiffyn mewn adfyd.

Arglwydd bywyd a chariad:
gwrando ein gweddi.

Bydded iddynt feithrin eu teulu'n ffyddlon,
gweld eu plant yn tyfu, gorff, meddwl ac ysbryd,
a dod yn y diwedd at derfyn eu hoes yn fodlon
eu calon ac yn gobeithio'n llawen am y nefoedd.

Arglwydd bywyd a chariad:
gwrando ein gweddi.

i. Faithful God,
holy and eternal, source of life and spring of love,
we thank and praise you for bringing *N* and *N* to this day,
and we pray for them.
Lord of life and love:
hear our prayer.

May their marriage be life-giving and life-long,
enriched by your presence and strengthened by your grace;
may they bring comfort and confidence to each other in
faithfulness and trust.
Lord of life and love:
hear our prayer.

May the hospitality of their home bring refreshment and
joy to all around them; may their love overflow to
neighbours in need and embrace those in distress.
Lord of life and love:
hear our prayer.

May they discern in your word order and purpose for
their lives; and may the power of your Holy Spirit lead
them in truth and defend them in adversity.
Lord of life and love:
hear our prayer.

May they nurture their family with devotion,
see their children grow in body, mind and spirit and
come at last to the end of their lives with hearts content
and in joyful anticipation of heaven.
Lord of life and love:
hear our prayer.

- ii. Yn llawn llawenydd dros *E* ac *E*, gweddiwn dros eu bywyd ynghyd.
Bydded eu cariad at ei gilydd yn fwyd a diod iddynt,
Eu parch at ei gilydd yn ffynhonnell eu llawenydd.
Arglywydd yr aelwyd a'r cartref.
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.
neu Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.
Bydded eu dealltwriaeth o'i gilydd yn sylfaen i faddeuant,
Eu serch at ei gilydd yn fflam i oleuo pob tywyllwch.
Arglywydd yr aelwyd a'r cartref.
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.
neu Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.
Bydded eu hymrwymiad i'w gilydd yn sicrwydd iddynt,
Eu ffydd yng Nghrist yn ganolbwyt eu tŷ a'u cartref.
Arglywydd yr aelwyd a'r cartref.
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.
neu Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.
Bydded eu didwylledd yn ffynhonnell tangnafedd.
Deued eu gonestrwydd â chytgord i bob anhawster a
wynabant.
Arglywydd yr aelwyd a'r cartref.
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.
neu Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.
Bydded i'r Arglwydd bob amser le yn eu cartref.
A llais ym mhob peth a wnânt.
Arglywydd yr aelwyd a'r cartref.
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.
neu Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.

*Os nad yw'r gwasanaeth yn rhan o litwrgi'r Cymun Bendigaid,
gellir terfynu'r Ymbiliad â'r canlynol:*
Wedi ein clymu ynghyd yn ei gariad, daw Crist â ni'n
nes at y Tad, ac felly, yn ei eiriau ef, dyrchafwn ein
lleisiau mewn gweddi: **Ein Tad ...**

ii. Filled with joy for *N* and *N*, let us pray for their life together.

May their love for each other be their food and drink.
May their respect for each other be the source of their joy.

Lord of hearth and home. *or* Lord, in your mercy.
Hear our prayer this day. **Hear our prayer.**

May their understanding of each other be the foundation of forgiveness.
May their passion for each other be a flame that brings light in the darkness.

Lord of hearth and home. *or* Lord, in your mercy.
Hear our prayer this day. **Hear our prayer.**

May their commitment to each other be their security.
May their faith in Christ be the focal point of their house and home.

Lord of hearth and home. *or* Lord, in your mercy.
Hear our prayer this day. **Hear our prayer.**

May their openness to each other be a source of peace.
May their honesty bring harmony to the difficulties they encounter.

Lord of hearth and home. *or* Lord, in your mercy.
Hear our prayer this day. **Hear our prayer.**

May the Lord always have a place within their home.
May he have a say in all they do.

Lord of hearth and home. *or* Lord, in your mercy.
Hear our prayer this day. **Hear our prayer.**

If the service does not take place within the Liturgy of the Eucharist then the Intercessions may be concluded with the following:

Christ draws us closer to the Father, in an intimate communion of love, and so in his words we raise our voices in prayer: **Our Father ...**

- iii. Gweddiwn dros *E* ac *E*, fod iddynt gydol eu bywyd priodasol ynghyd gadw bob amser yr addewidion a wnaethant.

Rhodded muriau eu cartref iddynt ddiogelwch a sefydlogrwydd, ond heb fyth gau allan ofalon y byd.
Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.

Llewyrched goleuadau eu cartref â chariad a fydd yn wahoddiad i bawb a â heibio ac yn oleuni i'w bywydau.
Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi

Bydded drysau eu cartref yn agored i bawb a ddaw yn enw'r Arglwydd, bydded yno groeso cynnes a hael a chariad di-baid.
Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.

Bydded i'w plant gael eu magu mewn cariad, fel y bo eu bywyd teuluol yn ysbrydoliaeth i'r gymuned gyfan ac yn esiampl o'r hyn y mae dilyn yr Arglwydd yn ei olygu.
Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.

*Os nad yw'r gwasanaeth yn rhan o litwrgi'r Cymun Bendigaid,
gellir terfynu'r Ymbiliad â'r canlynol:*

Bydded eu bywyd ynghyd yn arwydd o gariad yr Arglwydd a dywalltodd ei Ysbryd i'n calonau yn llefain 'Abba, Dad,' fel y gallwn ddyrchafu ein lleisiau ag un galon a meddwl, a dweud gyda'n gilydd:
Ein Tad ...

- iii. Let us pray for *N* and *N*, that throughout their married life together they may always keep the promises they have made.

May the walls of their home offer them security and stability but never shut out the concerns of the world.
Lord God, giver of all that is good.

Hear our prayer.

May the lights of their home glow with a love that invites and lights up the lives of all who pass by.
Lord God, giver of all that is good.

Hear our prayer

May the doors of their home be open to all who come in the name of the Lord, where they are welcomed with generous warmth and undying love.
Lord God, giver of all that is good.

Hear our prayer.

May their children be nurtured in love, so that their family life will inspire the whole community with an example of what it means to follow the Lord.
Lord God, giver of all that is good.

Hear our prayer.

If the service does not take place within the Liturgy of the Eucharist then the Intercessions may be concluded with the following:

May their life together be a sign of the loving embrace of the Lord who has poured his spirit into our hearts crying, ‘Abba, Father,’ so that we can raise our voices with one heart and mind, and say together: **Our Father ...**

Atodiad 8

FFURF AR GYFER CYSEGRiad YCHWANEGOL

Dad nefol,
gwrando ar y weddi a'r diolchgarwch
a offrymwn trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
a gymerodd *fara* (*a'r*) *y cwpas* ac a ddywedodd:
Hwn yw *fy nghorff* (*a hwn yw*) *fy ngwaed*.
Cymerwn ninnau *y bara* (*a'r*) *y gwin* hwn
a gweddiwn y byddant trwy dy Air a'th Ysbryd
yn sacrament *corff* (*a*) *gwaed* Crist. **Amen.**

Appendix 8

FORM FOR ADDITIONAL CONSECRATION

Holy Father,
hear the prayer and thanksgiving
which we offer through Jesus Christ our Lord,
who took *bread (and) the cup* and said:
This is my body (and this is my) blood.
We also take this *bread (and) wine*
and pray that by your Word and Spirit it may be for us
the sacrament of the *body (and) blood* of Christ. **Amen.**

Cydnabyddiaethau

Lluniwyd y Gwasanaethau Priodas (i'w defnyddio yn yr Eglwys yng Nghymru yn ychwanegol at y gwasanaethau a gynhwysir yn Llyfrau Gweddi 1664 a 1984) gan Comisiwn Ymgynghorol Sefydlog yr Eglwys yng Nghymru ar Litwrgi.

Cyfeiriodd y Comisiwn at ystod eang o ddeunydd wrth baratoi'r Gwasanaethau, ac y mae'n cydnabod y cymorth a'r budd a gafwyd o hynny.

Gwaith gwreiddiol y Comisiwn yw rhannau helaeth o destun y Gwasanaethau, a'r Gwasanaethau fel casgliad. Gwnaeth yr Eglwys yng Nghymru ei gorau i ddarganfod a hysbysu perchenogion hawlaint pob gwaith a atgynhyrchwyd a sicrhau eu hawdurdod i'w gynnwys. Fodd bynnag, os anwybyddwyd unrhyw waith, torri ei hawlaint a'i ddefnyddio heb hawl, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymddiheuro ac, o'i hysbysu o hynny, bydd yn cywiro'r cam wrth ailargraffu'r Gwasanaethau yn y dyfodol.

Gwasanaethau Priodas i'w defnyddio yn yr Eglwys yng Nghymru yn ychwanegol at y gwasanaethau a gynhwysir yn Llyfrau Gweddi 1664 a 1984 a awdurdodwyd gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

④ Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2010.
Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adfer, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig na mecaniddol, na'i lungopio na'i recordio na dim arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru, ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol.

Ni chaniateir atgynhyrchu rhannau sylweddol o ddeunydd hawlaint sy'n eiddo i'r Eglwys yng Nghymru dan amodau unrhyw drwydded a roddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyfyngedig na'r Gymdeithas Trwyddedu Cyhoeddwyd Cyfyngedig.

Acknowledgements

Marriage Services (for use in the Church in Wales, in addition to the services contained in the 1662 and 1984 Prayer Books) were compiled by the Standing Liturgical Advisory Commission of the Church in Wales.

The Commission referred to a wide range of material in the preparation of the Services, and acknowledges the assistance and benefit thereby obtained.

Substantial parts of the text of the Services, and the Services as a compilation are the original creations of the Commission. The Church in Wales has used its best endeavours to ascertain and notify the owners of copyright in all works reproduced in the Services, and to secure their authority to use such works. If, however, any work has been overlooked, and its copyright infringed by unauthorized use, the Church in Wales offers its apology, and following notification of such oversight will rectify the omission in future reprints of the Services.

Marriage Services for use in the Church in Wales in addition to the services contained in the 1662 and the 1984 Prayer Books authorized by the Governing Body of the Church in Wales

© Copyright Church in Wales Publications and the Representative Body of the Church in Wales 2010.
All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without prior permission in writing from the Church in Wales, except as expressly permitted.

Substantial parts of copyright material owned by Church in Wales Publications may not be reproduced within the terms of any licence granted by the Copyright Licensing Agency Limited or the Publishers Licensing Society Limited.

Testunau allan o'r *New Revised Standard Version of the Bible Anglicized Edition*,^④ 1989, 1995, Adran Addysg Gristnogol, Cyngor Eglwysi Crist yn Unol Daleithiau America, defnyddiwyd trwy ganiatâd. Cedwir pob hawl.

Dyfyniadau o'r *Beibl Cymraeg Newydd* a'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004*^⑤ Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl, defnyddiwyd trwy ganiatâd. Cedwir pob hawl.

Gweddi'r Arglywydd^⑥ The English Language Liturgical Consultation (ELLC) 1988.

Hawlfraint^⑦ Cyngor yr Archesgobion, 2005 yw *Common Worship: Services and Prayers for the Church of England*; atgynhyrchrir y Sallwyr a darnau eraill trwy ganiatâd.

ATGYNHYRCHU

Gellir atgynhyrchu rhan helaeth o'r *llyfr hwn* a elwir Gwasanaethau Priodas i'w ddefnyddio heb dalu ffi ar yr amod na werthir y copiâu, na chynhyrchrir mwy na 250 ohonynt, bod enw'r plwyf, yr eglwys gadeiriol neu'r sefydliad ar y clawr neu'r dudalen flaen ynghyd â'r disgrifiad o'r gwasanaeth a bod cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn:

Hawlfraint^⑧ Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2010 yw *Gwasanaethau Priodas (i'w defnyddio yn yr Eglwys yng Nghymru yn ychwanegol at y gwasanaethau a gynhwysir yn Llyfrau Gweddi 1664 a 1984)* y cynhwysir deunydd ohono yn y gwasanaethau hyn.

Rhaid i blwyfi sydd am atgynhyrchu rhan helaeth o'r *llyfr hwn* neu fwy na 250 o gopiâu ohono i'w defnyddio ar unrhyw achlysur gael caniatad ymlaen llaw oddi wrth y Rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad isod.

Dylid bob amser anfon copi, i'w gadw'n gofnod o'r cyhoeddiad, at y Rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad isod:
Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru,
39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF.

Texts from the *New Revised Standard Version of the Bible Anglicized Edition*, © 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America, used as permitted. All rights reserved.

Quotations from *Y Beibl Cymraeg Newydd* and *Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* © (The British and Foreign) Bible Society, used as permitted. All rights reserved.

The Lord's Prayer © The English Language Liturgical Consultation (ELLC) 1988.

Common Worship: Services and Prayers for the Church of England is copyright © The Archbishops' Council, 2005; extracts and the Psalter are reproduced by permission.

REPRODUCTION

A substantial part of *this book* entitled Marriage Services may be reproduced for use and without payment of a fee provided that copies are not sold, no more than 250 are produced and that the name of the parish, cathedral or institution is shown on the front cover or front page with the description of the service and that the following acknowledgement is included:

Marriage Services (for use in the Church in Wales, in addition to the services contained in the 1662 and 1984 Prayer Books) material from which is included in these services is copyright © Church in Wales Publications 2010.

Parishes wishing to reproduce a substantial part of *this book or more than 250 copies* for use on occasions must request, in advance, permission to do so from the Publications Manager at the address below.

In all cases a copy, to be kept as a record of each of the publications, should be sent to the Publications Manager at the address below:

Church in Wales Publications,
39 Cathedral Road, Cardiff CF11 9XF.